Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 24 Tachwedd 2016 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 18 Tachwedd 2016.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ali Ahmed, Manzoor Ahmed, Dilwar Ali, Aubrey, Awan, Bale, Boyle, Bradbury, Bridges, Burfoot, Carter, Chaundy, Clark, Richard Cook, Cowan, Chris Davis, De'Ath, Derbyshire, Elsmore, Ford, Goddard, Goodway, Gordon, Govier, Graham, Hill-John, Hinchey, Howells, Hudson, Hunt, Hyde, Keith Jones, Margaret Jones, Joyce, Kelloway, Knight, Lent, Lloyd, Magill, Marshall, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Mitchell, Murphy, Parry, Patel, Phillips, Rea, David Rees, Dianne Rees, Robson, Sanders, Simmons, Stubbs, Thomas, Ben Thomas, Graham Thomas, Lynda Thorne, Walker, Walsh, Weaver, White, Wild, Darren Williams a/ac Woodman

100 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Bowden, Ralph Cook, Evans, Groves, Holden a Derrick Morgan.

101 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y buddiannau canlynol:

| **Y Cynghorwyr** | **Natur y Buddiant** |
|---|---|
| Y Cynghorydd Elizabeth Clark | Eitem 11 – Datganiad yr Aelod Cabinet dros Iechyd, Tai a Llesiant – Buddiant personol gan bod aelod o'i theulu yn derbyn gofal Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau Teleofal. |
| Y Cynghorydd Russell Goodway | Eitem 13: Cynnig 2 – Buddiant Personol a Niweidiol fel cyflogai sefydliad darparwyr nodwyddau ac angen gwasanaethau cyfnewid yn yr un ardal. |
| Y Cynghorydd Lyn Hudson | Eitem 11 – Datganiad yr Aelod Cabinet, Tai a Llesiant – Buddiant personol gan bod aelod o'i theulu yn derbyn gofal Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau Teleofal. |
| Y Cynghorydd Judith Woodman | Eitem 11 – Datganiad yr Arweinydd – Buddiant personol gan bod aelod o'i theulu yn cael ei gyflogi gan CThEM.<br>Eitem 11 – Aelod Cabinet dros Iechyd, Tai a Llesiant – Buddiant personol fel Aelod o Fwrdd Rheoli'r Elusen Goldies Cymru. |

102 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2016 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

103 : ISETHOLIAD GRANGETOWN

Croesawodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Tariq Awan i'w gyfarfod Cyngor cyntaf ar ôl cael ei ethol i'r swydd wag yn Adran Etholiadol Grangetown ar 3 Tachwedd 2016.

Diolchodd y Cynghorydd Awan i'w gyd-gynghorwyr a'r swyddogion am ei groesawu'n fawr a'i gynorthwyo ers iddo gael ei ethol.

Talodd y Cynghorydd Awan deyrnged i'r Cynghorydd Lomax a oedd wedi gwasanaethu pobl Grangetown mor dda dros y 4 blynedd diwethaf; roedd colled mawr ar ei ôl. Roedd y Cynghorydd Awan yn gobeithio y gallai ymgymryd â'i rôl newydd gyda'r un caredigrwydd a'r un gostyngeiddrwydd â'r Cynghorydd Lomax pan oedd yn gwasanaethu trigolion Grangetown.

Roedd y Cynghorydd Awan yn falch iawn o gael ei ethol fel cynrychiolydd etholaeth Grangetown ac o gael ymgymryd â'i rôl newydd fel Cynghorydd Sir. Roedd y Cynghorydd Awan yn edrych ymlaen at weithio gyda'r gymuned gyfan ar broblemau a materion pryderus a'u gwella.

104 : DEISEBAU

Cyflwynwyd y deisebau canlynol: -

1 Y Cynghorydd Hudson – 644 o lofnodion (67 o ardal Cyngor Caerdydd) yn galw ar Ganol Dinas Caerdydd i aros yn le oedd yn addas i geir, gan ddisodli llefydd parcio a oedd wedi'u colli oherwydd gwaith dymchwel, ac i sicrhau bod dulliau teithio amgen i bawb a oedd yn ymweld â Chaerdydd, nid i'r bobl hynny oedd yn byw ger gorsaf drenau yn unig.

2 Y Cynghorydd Boyle – 624 o lofnodion yn galw ar Ysgol Gynradd Marlborough i barhau yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd ac y dylai disgyblion yn y dalgylch gael llefydd ysgol pe byddent yn gwneud cais amdanynt;

3 Y Cynghorydd Marshall – llofnodion ychwanegol ar ddeiseb a gyflwynwyd yn y Cyngor Llawn ar 20 Hydref yn galw ar y Cyngor i beidio â chau Canolfan Gymunedol a Chwaraeon Canol Caerdydd yn Ocean Park.

4 Y Cynghorwyr Bradbury a Simmons – 59 o lofnodion yn galw ar Fws Caerdydd i sicrhau bod gwasanaeth bws Rhif 15 yn dal i redeg ar hyd Cwrt yr Ala Road a Heol yr Odyn.

5 Y Cynghorydd Michael - 101 o lofnodion yn galw ar y Cyngor i ystyried y posibilrwydd o barc i blant bach/plant yn Ystâd Rhodfa Tarwick/Rhodfa Ferntree yn ardal Llaneirwg/Trowbridge o Gaerdydd.

105 : CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

**Cwestiwn gan y cyhoedd:** *Mr Rhys Taylor*

Mae busnesau lleol ar Whitchurch Road wedi gofyn am drwyddedau parcio i fusnesau ers tro yn yr ardal, a fyddai'n galluogi busnesau lleol i ddefnyddio llefydd parcio i breswylwyr yn ystod oriau gwaith. Mae Cyngor Caerdydd eisoes wedi treialu cynllun o'r fath yng Nglan-yr-afon; fodd bynnag, nid yw gwerthusiad y cynllun hwn wedi'i gyhoeddi eto. Allwch chi gadarnhau fod y Cyngor yn bwriadu cyhoeddi gwerthusiad y cynllun hwn fel bod modd i drwyddedau parcio i fusnesau gael eu cyflwyno ledled y Ddinas?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Patel*

Dechreuodd adolygiad cynllun peilota trwyddedau parcio busnes yng Nglan-yr-afon yn ystod cynhyrchiad Strategaeth Parcio'r Cyngor yn 2015, ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn ystod 2016/17.

Byddai canlyniad yr adolygiad yn cael ei nodi yn adroddiad parcio blynyddol 2016/17, y mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin flwyddyn nesaf.

**Cwestiwn ategol:** *Mr Rhys Taylor*

Pan fydd hyn yn digwydd, bydd y cynllun peilot wedi dechrau ers 18 mis. Pam nad ydych chi'n barod i ymgysylltu â busnesau yn ystod y cam hwn o'r project, o ystyried y pwysau sydd ar fusnesau lleol yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni? A wnewch chi ymrwymo i ymgysylltu â busnesau cyn diwedd y peilot er mwyn cyflwyno hyn ledled Caerdydd?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Patel*

Yn sicr, rwyf wedi ymrwymo i drafod â busnesau neu unrhyw aelodau eraill o'r cyhoedd sydd ag unrhyw bryderon bob tro. Os oes gennych unrhyw bryderon neu os oes gan unrhyw fusnesau eraill bryderon, mae croeso i chi gysylltu â mi a'r swyddfa a byddaf yn fwy na bodlon i drafod.

Er hyn, mae adolygiad yn cael ei gynnal, ac mae'n rhaid i ni dderbyn ein bod yn mynd i edrych ar hyn ar lefel y ddinas gyfan oherwydd yn amlwg daeth y cwestiwn cyntaf i mewn ynghylch Glan-yr-afon, ond nid yw'r broblem hon yng Nghaerdydd yn unig - mae hi'n broblem ledled y Sir. A thu hwnt i Gaerdydd mae'n siŵr. Rwyf newydd fod yn Llundain, ac mae'r problemau'n debyg yn fanna hefyd lle mae'r busnesau. Felly mae hyn yn broblem i'r Deyrnas Unedig gyfan.

Ond yn sicr, byddaf yn fwy na bodlon i drafod ymhellach gyda chi.

**Cwestiwn gan y cyhoedd:** *Mr Tom Walker*

Yn ystod cylch derbyniadau i ysgolion uwchradd 2016, ni chafodd nifer sylweddol o blant o Ysgol Gynradd Marlborough (a oedd wedi bod yn breswylwyr hirdymor yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd) le yn Ysgol Uwchradd Caerdydd i ddechrau. Arweiniodd hyn at darfu ar grwpiau cyfoedion oedd eisoes wedi sefydlu, a phoen meddwl sylweddol i'r plant dan sylw.

Yn sgil hyn, allwch chi gadarnhau pa gamau a gymerwyd, os o gwbl, gan y Cyngor i sicrhau bod hawliau a buddiannau plant Ysgol Gynradd Marlborough, a blaenoriaethau eu rhieni, yn cael eu hystyried yn ddigonol ac yn deg wrth ddyrannu llefydd yn Ysgol Uwchradd Caerdydd?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Merry*

Yn gyntaf, hoffwn ddweud fy mod yn cydymdeimlo gydag unrhyw riant sy'n wynebu ansicrwydd ynglŷn â llefydd ysgol.

Caiff y polisi derbyniadau ei sefydlu'n flynyddol blwyddyn cyn y flwyddyn ysgol y bydd y polisi'n berthnasol iddi, fel bod gan rieni syniad da am y polisi wrth wneud cais am le ysgol, a chaiff ei gymhwyso yn yr un modd i bob ysgol gymunedol yn yr awdurdod.

Os oes gormod o bobl yn gwneud cais am le mewn ysgol, bydd nifer o feini prawf yn berthnasol. Er bod gan blant sy'n byw yn y dalgylch flaenoriaeth o ran cael eu derbyn, nid yw byw yn y dalgylch yn gwarantu lle yn yr ysgol.

Fel y gwyddoch, roedd gormod o blant wedi gwneud cais am le yn Ysgol Uwchradd Caerdydd y llynedd, ond mae digon o lefydd ysgol ar gyfer yr ardal ehangach.

Er mwyn helpu rhieni, mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Marlborough er mwyn cynyddu dealltwriaeth o drefniadau derbyn.

Gwahoddwyd y Corff Llywodraethu i ystyried a rhoi mewnbwn ar wybodaeth dderbyn y rhieni eleni i geisio sicrhau bod y wybodaeth yr ydyn ni'n ei rhoi yn eglur ac yn ddefnyddiol i rieni: mae'n bwysig bod rhieni yn arfer eu pŵer i fynegi 3 dewis i gynyddu'r tebygolrwydd o'u plentyn yn derbyn lle ysgol yn y cylch derbyn cyntaf.

Gwnaeth uwch swyddog derbyn fynychu'r noson agored a gynhaliwyd yn Marlborough i roi gwybod i rieni am y broses a'r opsiynau sydd ar gael. Rhoddwyd gwybodaeth am y broses apeliadau a'r derbyn i'r rhieni.

Roedd cynrychiolwyr o ysgolion uwchradd eraill hefyd yn bresennol i roi gwybodaeth i rieni fel bod modd iddynt ystyried yr holl opsiynau.

Bydd y Cyngor hefyd yn ymgynghori ar gynllun peilot o broses dderbyn gydlynol ar lefel ysgolion uwchradd o 5 Rhagfyr i 23 Ionawr. Byddai proses dderbyn gydlynol yn lleihau lefel pryder y rhieni yn sylweddol, yn enwedig y rhieni sy'n aros i ddarganfod pa ysgol y bydd eu plentyn yn mynychu.

**Cwestiwn atodol:** *Mr Tom Walker*

Ni wnes i ddeall y brawddegau olaf yn yr ymateb ysgrifenedig. Oes modd i'r Cynghorydd eu darllen nhw eto os gwelwch yn dda?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Merry*

Na, wrth ail-ddarllen y cwestiwn roeddwn o'r farn nad oedd yn ymateb yr ystyriaethau hirdymor. Rwy'n gwybod y byddai'r rhain ar y brig o ran blaenoriaethau'r rhieni.
Yn gynharach y flwyddyn hon, cafwyd cynnig y dylid newid dalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd. Gwnaethom newid y datganiad i nodi, pan fo gormod o bobl wedi cofrestru ar gyfer ysgol, bydd y Cyngor yn ystyried ehangu, newid dalgylch neu adeiladu ysgol o'r newydd. Dyma fydd y sail wrth symud ymlaen i'r dyfodol.

**Eglurhad Personol:** *Mr Tom Walker*

Hoffwn egluro; ni wnaeth ymateb ysgrifenedig y Cynghorydd Merry gynnwys y brawddegau olaf hynny sy'n hanfodol ynghylch beth gafodd ei gynllunio go iawn. Hoffwn ddweud ychydig i roi hyn yn ei gyd-destun. Mae'r Cynghorydd Boyle wedi cyflwyno deiseb gyda llofnodion 624 o rieni sy'n poeni am drefniadau sy'n berthnasol ar hyn o bryd gan na chafodd 23 o blant oedd wedi byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd ers tro le yn yr ysgol yn y rownd gyntaf. Fodd bynnag, cafodd 49 o blant o'r tu allan i'r dalgylch le.

Yn sgil hynny felly, os yw plentyn yn symud i'r ardal ar ddiwrnod y cais bydd yn cael mwy o flaenoriaeth na phlentyn sydd wedi byw yno drwy gydol ei fywyd. Mae hyn yn ofnadwy o annheg.

O ran ymateb y Cynghorydd Merry, yn anffodus, nid yw'n ateb y cwestiwn – mae'n ailadrodd polisi cyfredol ac nid yw'n trafod annhegwch y polisi yn ei hanfod, yn fy marn i. I ddweud y gwir, mae'r ymateb yn ymwneud â sut mae'r Cyngor yn gwneud y polisi annheg presennol yn gynt, nid yn decach.

Felly, a fydd y Cyngor yn fodlon ar gytuno ar ymgynghoriad neu adolygiad o'r polisi cyfredol, gan fynd ar ôl yr annhegwch hwn i gynnwys ystyriaeth o b'un ai a ddylid mabwysiadu cyfnod preswylfa mewn dalgylch fel meini prawf yn hytrach na meini prawf agosatrwydd? Byddai hynny'n rhoi terfyn ar y bobl sy'n symud i mewn i'r ardal gan obeithio cael lle yn yr ysgol, a'r drefn o bobl yn symud i mewn i'r ysgol ac yn cael eu blaenoriaethu dros bobl sydd eisoes ar y rhestr. A wneith y Cyngor gytuno ar ystyried hynny?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Merry*

Rwy'n credu bod angen ychydig o eglurder ynghylch y broses dderbyn. Caiff rhai plant eu derbyn o du allan i'r dalgylch oherwydd bod ychydig o feini prawf sydd â blaenoriaeth dros breswylwyr, megis datganiadau anghenion addysgol sy'n gysylltiedig ag ysgolion ac hefyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae gan y rheiny fwy o flaenoriaeth na phreswylfa. Ac mae hynny'n rhan o'n polisi derbyn yr ydyn ni wedi cytuno arno fel awdurdod lleol. Yn amlwg, mae'n cael ei adolygu pob blwyddyn

ond nid wyf yn meddwl y byddai’r Aelodau yn fodlon ar newid yr elfen honno ar y polisi derbyn.

Gallwn ni ystyried prawf cyfnod preswylfa. Cafodd hyn ei grybwyll gan y rhieni a thrafodais hyn gyda’r Swyddogion. Mae’r cyngor cyfreithiol yr ydym wedi derbyn hyd yma yn nodi y gall hynny gael ei ystyried yn wahaniaethol dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Ond mae hynny wastad yn bosibilrwydd ac rydym yn ystyried y polisi derbyn pob blwyddyn. Ond rwyf o’r farn y byddai llawer o rieni'n credu os ydyn nhw’n byw ger ysgol ond yn digwydd bod wedi symud o fewn blwyddyn neu ddwy o gyfnod ysgol gynradd plentyn, yn yr un modd roedd hi'n annheg i beidio rhoi lle mewn ysgol iddyn nhw ar y sail honno.

106 : CYHOEDDIADAU’R ARGLWYDD FAER

(1) Cyn-Arglwydd Faer y Cynghorydd Max Phillips
Yn anffodus, cafodd yr Arglwydd Faer wybod bod y cyn-Arglwydd Faer, y Cynghorydd Max Phillips wedi marw ar ôl cyfnod o salwch byr ar 16 Tachwedd. Gwahoddodd yr Arglwydd Faer deyrngedau gan Aelodau, a rhoddodd wybod ei bod hi wedi anfon cydymdeimladau ar ran y Cyngor i’w ferch Sian a’r teulu.

Gwnaeth y Cynghorwyr Bradbury, Cowan Hunt, Kelloway, McEvoy, Michael a Walker dalu teyrnged iddo, a oedd yn cynnwys ei gyfraniad fel Arglwydd Faer o ran cefnogi celf a cherddoriaeth yng Nghaerdydd; ei waith yn nghymuned Y Tyllgoed a Phentre-baen; a’i gariad tuag at chwaraeon - rygbi yn benodol a'i gefnogaeth o gysylltiadau gefeillio Caerdydd dros nifer o flynyddoedd.

(2) Cydnabyddiaeth a Gwobrau – derbyniwyd y canlynol dros y mis diwethaf a bu i’r Arglwydd Faer longyfarch y timau ar eu llwyddiannau.

Wythnos Cyflog Byw – gwnaeth Swyddogion o dîm Caffael y Cyngor ymuno â chyflogwyr Cyflog Byw eraill yng Nghymru i nodi diwedd Wythnos Cyflog Byw drwy gerdded y mynydd uchaf yn ne Cymru.

Ymunodd staff â chynrychiolwyr o Tai Taf, Dŵr Brecon Carreg, Action in Caerau and Ely, a Citizens Cymru Wales i gerdded Pen y Fan ym Mannau Brycheiniog i ddathlu ar ddiwedd Wythnos Cyflog Byw (31 Hydref - 5 Tachwedd).

Ar ôl i Citizens Cymru Wales drefnu’r digwyddiad, dechreuon nhw ddringo yng Nghanolfan Addysg Awyr Agored y Storey Arms ac roedd Andrew Meek yn arwain y ganolfan. Unwaith yr oeddent ar dop Pen y Fan, gwnaeth y cerddwyr ddathlu gyda llun o’r grŵp gyda'r fflag Cyflog Byw.

Tîm Goleuo Stryd – llongyfarchiadau i dîm Goleuo Stryd y Cyngor sydd wedi ennill gwobr HEA (Sefydliad Trydan Priffyrdd) Aelod Contractio’r Flwyddyn 2016.

Cyflwynwyd y wobr penigamp yng Nghynadledd Blynyddol a Swper Gwobrwyon HEA ar 3 Tachwedd 2016 yng Ngwesty'r Celtic Manor.

Roeddent yn cystadlu yn erbyn dros 120 o sefydliadau. Mae'r wobr hon yn gydnabyddiaeth haeddiannol i'r tîm sy'n cynnig safon weithio uchel iawn, ac mae eu gweld yn cael eu cydnabod ymysg perfformwyr gorau'r DU yn braf iawn.

Ysgol Gynradd St Bernadette – llongyfarchiadau i Ysgol Gynradd St Bernadette a leihaodd eu defnydd ynni o 23% yn ystod y gystadleuaeth 'Diffodd am 10 Diwrnod' diweddar a noddwyd gan Viridor. Nod y gystadleuaeth oedd annog disgyblion i leihau eu defnydd o ynni ac i addysgu disgyblion am fesurau arbed ynni.

Gwnaeth yr ysgol yn well na Ysgol Gynradd Radur o 1%, gan ennill ymweliad am ddim i'r Ganolfan Addysg yng Nghyfleuster Adfer Ynni Viridor.

Gall camau bychain wneud gwahaniaeth pan mae'n dod i arbed ynni. Pe byddai holl ysgolion Caerdydd yn dilyn esiampl Ysgol Gynradd St Bernadette's yn ystod y gystadleuaeth, byddai'n arbed oddeutu £400,000 oddi ar fil trydan blynyddol y Cyngor, sy'n £6.2miliwn.

Diolch i bob ysgol a gymerodd ran.

'Y Bêl Enfawr' yn cael cydnabyddiaeth Arloesedd Chwaraeon – Mae safle Caerdydd fel un o leoliadau chwaraeon gorau'r Byd wedi'i danlinellu'n ddiweddar gan ennill 3 o enwebiadau yng Ngwobrwyon Twristiaeth Chwaraeon Rhyngwladol blynyddol yn Llundain.

Roedd prifddinas Cymru ar y rhestr fer ar gyfer y Ddinas Dwristiaeth orau, y wobr Arloesedd Twristiaeth yn sgil 'Y Bêl Enfawr' oedd yn boblogaidd tu hwnt yng Nghastell Caerdydd yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd y llynedd, ac yn y categori Cyfranogiad ar gyfer Pencampwriaethau Hanner Marathon y Byd.

(3) Codi Arian Elusennol yr Arglwydd Faer – mae rhoddion a chasgliadau ar gyfer Elusen yr Arglwydd Faer, sef Ymchwil Canser Cymru wedi cyrraedd £30,000 gyda chyfraniadau hael iawn gan Undeb Rygbi Cymru, Castle Bingo a Gŵyl y Gaeaf.

Diolchodd yr Arglwydd Faer i'r Cynghorydd Dilwar Ali am gynnal Noson Gyri'r Arglwydd Faer a gododd dros £600 tuag at darged y Cynghorydd Ali am ei daith ar hyd Wal Tsieinia. Mae wedi codi £4,800 hyd yn hyn.

Roedd yr Arglwydd Faer yn falch iawn o gefnogi staff y Cyngor, cyd-gynghorwyr a chydweithwyr o Gartref Cŵn Caerdydd ar ddigwyddiad Cerdded ar y Lanfa ddydd Gwener diwethaf, a gododd £500.

Diolchodd yr Arglwydd Faer i Archesgobaeth Caerdydd ac Eglwys Gadeiriol Fetropolitan Dewi Saint; cyd-Gynghorwyr a swyddogion a fynychodd ac a

gymerodd rhan yng Ngwasanaeth Dinesig yr Arglwydd Faer. Mae'r Archesgobaeth yn dathlu ei ben-blwydd yn 100 eleni, a chyfrannodd £500 i fy elusen.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r Cynghorwyr Hudson a Dianne Rees am roddi Golygfa'r Geni yn Neuadd y Ddinas unwaith eto eleni, gyda rhoddion i Elusen yr Arglwydd Faer.

Mae'r digwyddiadau canlynol wedi'u trefni ar gyfer mis Rhagfyr: -

Ras y Ceirw - dydd Sadwrn 3 Rhagfyr yn Yr Eglwys Newydd.
Gwnaeth aelodau staff y Cyngor, sy'n gwirfoddoli ar ran yr elusen yn rheolaidd, Ceri Gauci ac Amanda Venning, gymryd rhan yn y digwyddiad eleni er mwyn helpu i godi arian i'r elusen ar ran elusen yr Arglwydd Faer.
I gael manylion llawn am y digwyddiad neu os ydych yn dymuno cymryd rhan yn Ras y Ceirw, ewch i www.crwreindeerrun.co.uk
Bore coffi'r Nadolig yr Arglwydd Faer yn y Plasty ddydd Mercher 14 Rhagfyr 2016.

Gwasanaeth Carolau Blynyddol Aelodau a Staff yr Arglwydd Faer am 10.30am ar 15 Rhagfyr 2016.

107 : PENODI AELOD ANNIBYNNOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

**Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo argymhellion Panel Penodi'r Pwyllgor Archwilio ar 7 Tachwedd 2016 i benodi dau o Aelodau Annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio: -**

**Nododd yr Arglwydd Faer bod yr Athro Maurice Pendlebury, a fynychodd y Cyngor ar sawl achlysur dros y chwe mlynedd diwethaf yn diswyddo yn y Pwyllgor Archwilio nesaf, sef 29 Tachwedd 2016.**

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn

(1) cymeradwyo penodiad Mr David Price i lenwi'r swydd wag ar gyfer Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Archwilio o 25 Tachwedd 2016;

(2) cymeradwyo penodiad Mr Gavin McArthur i lenwi'r ail swydd wag. Bydd y swydd wag hon wedi'i llenwi o 1 Rhagfyr 2016;

(3) diolch i'r Athro Pendlebury am ei gyfraniad sylweddol at waith y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Archwilio blaenorol a dymuno'n dda iawn iddo ar gyfer y dyfodol.

108 : STRATEGAETH DAI CAERDYDD 2016-2021

Gofynnwyd i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo Strategaeth Dai Caerdydd 2016-2021.

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Iechyd, Tai a Llesiant, sef y Cynghorydd Susan Elsmore yr adroddiad a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Bale.

Strategaeth Dai Caerdydd yw'r ddogfen strategol sy'n nodi cyfeiriad y ddarpariaeth dai a'r gwasanaethau tai ledled pob daliadaeth yn y Ddinas a phrif flaenoriaethau'r Cyngor a phartneriaid. Datblygwyd y Strategaeth mewn amser lle mae galw cynyddol am dai a llai o adnoddau; ac felly mae'n canolbwyntio ar flaenoriaethu a bodloni anghenion y rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Mae'r Strategaeth yn nodi canfyddiadau Asesiad Marchnad Dai Lleol 2015, a gomisiynwyd i ddarparu sail tystiolaeth cadarn ar gyfer galw am dai yn y dyfodol, i lywio'r Strategaeth Dai. Bydd yr Asesiad o'r farchnad yn cael ei ddiweddaru bob yn ail blwyddyn yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn ymateb i ddeddfwriaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru gan gynnwys y Deddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Rhentu Tai (Cymru) 2016 a newidiadau ym mholisi Llywodraeth y DU, yn benodol ynghylch diwygio lles.

Mae'r Strategaeth yn cefnogi 4 o brif flaenoriaethau'r Cyngor: -

- Datblygu dealltwriaeth lawn o'r angen am dai yn y ddinas (Angen am Dai)
- Defnyddio dull cydlynol wedi'i seilio ar dystiolaeth o ran datblygu a gwella tai yng Nghaerdydd (Tai)
- Sicrhau bod anghenion tai y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn cael eu bodloni (Pobl)
- Gwella cymdogaethau a helpu i adeiladu cymunedau cryfach (Cymunedau)

Mae'r Strategaeth yn nodi nifer o weithgareddau a fydd yn cael eu cynnal gan y Cyngor a'r partneriaid dros y bum mlynedd nesaf, a bydd cynllun gweithredu ar wahân yn cael ei ddatblygu ac wedi sefydlu fframwaith fonitro i dracio cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau hyn. Cynhigir y dylai hyn fod ar ffurf cerdyn adroddiad blynyddol, gyda gweithgareddau wedi'u nodi drwy system RAG.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y strategaeth. Roedd yr aelodau'n gefnogol o'r Strategaeth a oedd wedi bod yn destun ymgynghori a chraffu. Codwyd sawl mater, gan gynnwys cefnogi tai am oes; perchentyaeth; dyrannu tir ar gyfer tai Cyngor; y nifer o dai Cyngor a adeiladir; defnyddio adeiladwyr lleol; canllawiau tai fforddiadwy a defnyddio cyllid o'r rwymedigaeth gynllunio Adran 106. Trafodwyd dyluniad a gwneuthuriad darpariaeth tai newydd a chadw cymeriad cymuendau hefyd.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i'r cwestiynau a diolchodd yn benodol i Bwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion am eu cyfraniad positif i'r Strategaeth. Trafododd y gwaith pwysig oedd yn cael ei gynnal i gefnogi'r cymunedau mwyaf agored i niwed; datblygu unedau fforddiadwy; pwysigrwydd partneriaethau a datblygiadau newydd sydd ar y gorwel.

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo Strategaeth Dai Caerdydd 2016-2021.

109 : ADODDIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2016-17

Caiff gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth a'r Cod Ymarfer 2011 diwygiedig a ddatblygwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA).

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad, y Cynghorydd Hinchey, yr adroddiad monitro canol blwyddyn oedd yn nodi gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys ers 1 Ebrill 2016 a'r safle fel ag yr oedd ar 30 Medi 2016. Eiliwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Hunt.

Yn adroddiad y gyllideb mis Chwefror 2010, bu i'r Cyngor fabwysiadu Cod Rheoli'r Trysorlys diwygiedig CIPFA drwy dderbyn yn ffurfiol Pedwar Cymal Rheoli'r Trysorlys a Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys yn bolisi'r Cyngor. Mae Pwyllgor Archwilio'r Cyngor wedi ymgymryd â'r gwaith o graffu materion cyfrifeg, archwilio a masnachol Strategaeth ac Arferion Rheoli Trysorlys.

Agorodd yr Arglwydd Faer y llawr i unrhyw gwestiynau a/neu ddadleuon, a rhoddwyd sicrwydd o ran lefel ddyled y Cyngor a oedd o fewn canllawiau a pholisïau priodol a gafodd eu meincnodi gan ddinasoedd craidd eraill.

PENDERFYNWYD – Y dylai'r Cyngor nodi Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2016-17 (Atodiad 1).

110 : DATGANIADAU

Datganiad yr Arweinydd a Datblygu Economaidd a Phartneriaethau

Cyflwynodd yr Arweinydd ei ddatganiad ar gwrdd â Chlwb Brecwast Caerdydd ar 11 Tachwedd 2016, ble trafododd y weledigaeth i Gaerdydd ddod yn y brifddinas orau yn Ewrop i fyw ynddi a'r sefyllfa ar hyn o bryd o ran y Fargen Ddinesig a strategaeth economaidd Prifddinas-ranbarth Caerdydd; Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gynhaliwyd 3 Tachwedd 2016 yn y Stadiwm Principality yng Nghaerdydd a oedd yn cynnwys cyflwyniad gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC. Gwnaeth yr AC drafod ei gynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol ac ymgynghori pellach, ac mae disgwyl i hyn ddigwydd ym mis Rhagfyr ac ar ddechrau 2017.

Roedd datganiad yr Arweinydd hefyd yn cynnwys manylion ar sut roedd projectau a datblygiadau eraill gan gynnwys nodi lleoliad ar gyfer 'Modurdy Ddigidol Google'; roedd CThEM wedi cyhoeddi eu safleoedd oedd ar y rhestr fer yng Nghaerdydd a fyddai'n gallu bod yn leoliad ar gyfer canolfan drethi ranbarthol newydd a fyddai'n cynnal swyddi a buddsoddiad ychwanegol; diweddariadau ar y Fargen Ddinesig ac Ymrwymiad Caerdydd.

Gwnaeth yr Arweinydd ymateb i gwestiynau ar ardrethi busnes, y Fargen Ddinesig a materion trafnidiaeth a seilwaith, projectau, dyraniadau tir a datblygiadau posib.

Datganiad Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad

Cyflwynodd Aelod Cabinet ddatganiad ar y System Eiddo TG Integredig Newydd; Cysylltu â Chaerdydd (C2C). Ar 4 Tachwedd, siaradodd C2C â'u 6,000,000ed cwsmer; Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (WITS); Academi Caerdydd a Briffio'r Aelodau ar y Cynigion Cyllidebol Drafft 2017-18.

Datganiad Trafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ddatganiad ar ddechreuad y project goleuo stryd LED.

Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau ynghylch lampau stryd; lefel y goleuo a diogelwch y cyhoedd. Pan y byddai ar gael, byddai'r Aelod Cabinet yn cynnig amserlen ar gyfer gwaith goleuo strydoedd yn y 12 mis nesaf.

Datganiad Datblygu Cymunedol, Cwmnïau Cydweithredol a Mentrau Cymdeithasol

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ddatganiad ar y Rhwydwaith Arloesedd Cynghorau Cydweithredol.

Nid oedd unrhyw gwestiynau am y datganiad.

Datganiad Sgiliau, Diogelwch ac Ymgysylltu

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ddatganiad ar Astudiaeth Prifysgol Caerdydd ar dacsis a fyddai'n cael ei droi yn adroddiad gan y Cyngor i ystyried a'i ddefnyddio er mwyn gwella swyddogaeth diwydiant tacsis y ddinas.
Gwnaeth yr Aelod Cabinet hefyd roi diweddariad ar yr Ymgyrch Rhuban Wen a'r wobr dref Rhuban Wen a dderbyniwyd ym mis Medi 2014.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i nifer o gwestiynau a godwyd ynghylch yr Arolwg ar Dacsis; a phryderon ynghylch bwlio cyd-gynghorwyr a cytunodd yr Aelod Cabinet i ystyried y materion a godwyd gyda'r Swyddog Monitro a'r swyddogion er mwyn bwrw ymlaen â'r mater hwn.

Datganiad Iechyd, Tai a Lles

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ddatganiad ar brawf gydweithredol rhwng Teleofal Caerdydd a'r Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST); y Project *Frequent Flyers* sef menter ar y cyd sydd wedi'i gynnal yn yr adran Tai a Chymunedau. Roedd y Gwasanaeth Digartrefedd wedi dechrau gweithio gyda BIP Caerdydd a'r Fro ar y project *frequent flyers*. Sefydlwyd y project i fynd ar ôl anghenion cymhleth y bobl fwyaf bregus a oedd yn mynychu'r Adran Damweiniau Ac Achosion Brys, yn ffonio'r gwasanaeth Meddyg Teulu allan o oriau, neu'n ffonio am ambiwlans yn aml.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet fanylion ar Llanisien Ynghyd a gynhaliwyd ddydd Sadwrn, 21 Hydref. Roedd hyn yn fenter er mwyn ceisio cael y gymuned i gefnogi pobl hŷn.

Cafodd yr Aelodau wybod am Weithdy'r Aelodau Craffu – Rôl Craffu ar ôl Gweithrediad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (SSWB); y Gweithdy Diogelu i Aelodau; a gwaith gyda chydweithwyr
Iechyd y Cyhoedd ar Gymunedau Dementia Gyfeillgar.

Roedd yr Aelod Cabinet hefyd wedi dod yn Aelod Cabinet (Awdurdod Lleol) ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau ar gyllido'r Cynlluniau Cymdogion Da; gwaith y Grŵp 50+ a digwyddiadau i'r dyfodol.

Datganiad y Dirprwy Arweinydd, Blynyddoedd Cynnar, Plant a Theuluoedd

Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd ddiweddariad ar sawl maes yn ei phortffolio Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant – yr ymgyrch "Nid yn ein dinas, Nid i'n Plant ni"; Plant Ar Eu Pen Eu Hunain Yn Ceisio Lloches;
Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH); Gweithdy Diogelu'r Aelodau a'r Gweithdy Aelodau Craffu - Rôl Craffu ar ôl Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Nid oedd unrhyw gwestiynau na sylwadau ar ddatganiad y Dirprwy Arweinydd.

Datganiad Addysg

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ddatganiad ar Gynllun Trefniadaeth Ysgolion ac yn benodol gwybodaeth ar agoriad swyddogol yr ymestyniad i Ysgol Gynradd Coed Glas yn Llanisien; adeiladu Ysgol Uwchradd y Dwyrain mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro a'r broses gaffael ar gyfer yr ysgol uwchradd newydd, ar gyfer wardiau Trelái a Chaerau.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ddatganiad ar Glwb Brecwast Ysgol Gynradd Oakfield a gafodd eu dewis fel enillwyr y Clwb Brecwast Gorau yng Nghymru am yr ail flwyddyn yn olynol; cyllid ar gyfer rhaglenni Erasmus+; cyfranogiad dau bobl ifanc o Gaerdydd ar Lywodraeth Ieuenctid y DU, Cyfarfod Blynyddol Tŷ'r Cyffredin; y fenter Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a fydd yn ychwanegu at y cymorth ysgolion a ddarperir gan dîm Caerdydd yn Erbyn Bwlio.

I gloi, rhoddodd yr Aelod Cabinet wybod bod Cymdeithas Llywodraethwyr Caerdydd, sef y prif sefydliad o ran cefnogi llywodraethu ysgolion, wedi cynnal ei Chynhadledd Hyfforddiant Blynyddol a'i thema oedd 'Ysgolion a Busnes mewn Partneriaeth'; ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion i ddiwygio a chydlynu fframwaith rheoliadol llywodraethu ysgolion yng Nghymru. Mae'r cynigion ynghylch diwygio'r fframwaith ddeddfwriaethol ar gyfer llywodraethu ysgolion er mwyn rhoi mwy o ffocws ar gyrff llywodraethu sgilgar. Yn ychwanegol i hyn, bu i Banel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol gwrdd ar 8 Tachwedd 2016, gan argymell 21 o ymgeiswyr i'w penodi. Roedd 13 yn geisiadau newydd ac roedd yr 8 a oedd yn weddill yn ail-benodiadau. Gwnaethpwyd llawer o'r penodiadau i'r ysgolion sydd wedi bod â llefydd gwag am gyfnod sylweddol ac i ysgolion sydd angen eu gwella fwyaf. Gwnaeth y Panel grybwyll safon uchel y ceisiadau a dderbyniwyd yn y cyfarfod hwn ac mewn cyfarfodydd blaenorol.

Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau ar gysylltiadau rhyngwladol Erasmus a chyllido cynlluniau o'r fath i'r dyfodol; safonau addysg PISA a'r buddion o ddysgu o arfer gorau mewn gwledydd Ewropeaidd eraill; materion gweithredol yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain; cydweithio pellach gyda sefydliadau megis Stonewall o ran taclo homoffobia mewn ysgolion.

Datganiad yr Amgylchedd

Rhoddodd yr Aelod Cabinet ddatganiad ar, Wasanaethau Ailgylchu a Thriniaeth; Gwasanaethau Parciau a Phrofedigaeth Caerdydd; Cartref Cŵn Caerdydd; a'r Gwasanaethau Cymdogaeth.

Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau ynghylch yr ymgyrch ailgylchu newydd; lansio'r gwasanaeth casgliadau ailgylchu eitemau mawr am ddim newydd; gohirio cau canolfan ailgylchu gwastraff y cartref Heol Wedal; y mentrau clirio cymdogaethau; a phenodi landlordiaid gyda Rhentu Doeth Cymru.

111 : CYNNIG 1

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod hysbysiad o gynnig, wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Keith Jones a'i eilio gan y Cynghorydd Thorne, wedi'i dderbyn a'i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr Hysbysiad o Gynnig fel y cyflwynodd y Cynghorydd Keith Jones fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor Llafur hwn yn:

1. Cydnabod y diffyg critigol o dai fforddiadwy ledled y DU. Yng Nghaerdydd mae mwy na 8,000 o bobl ar y rhestr aros tai cyffredin ar gyfer tai cymdeithasol, gyda dros 4,000 o bobl mewn angen am dai.
2. Cydnabod bod gwerthu tai cyngor wedi gwaethygu'r broblem o fynd ar ôl y galw am dai.
3. Cydnabod bod Llafur yng Nghaerdydd a Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o gynlluniau, megis lleihau'r gostyngiad sydd ar gael, sydd wedi atal nifer yr 'hawl i brynu'.
4. Croesawu polisi Llywodraeth Cymru o atal gwerthu tai cymdeithasol yng Nghymru, a phenderfyniad y Cyngor i ymgynghori ar atal yr hawl i brynu ledled Caerdydd.
5. Cydnabod bod y Cyngor yn dechrau ar ei ail Raglen Partneriaeth Tai i adeiladu mwy o dai cyngor a thai fforddiadwy yng Nghaerdydd.
6. Galw ar y Cabinet i ymchwilio i ddulliau arloesol eraill, dros dro a pharhaol, er mwyn cynyddu argaeledd tai fforddiadwy yng Nghaerdydd.

Gwnaeth y Cynghorydd Thorne eilio'r cynnig yn ffurfiol.

Dywedodd yr Arglwydd Faer bod tri newid i'r cynnig.

Cafodd Newid 1 ei gynnig gan y Cynghorydd Walker a'i eilio gan y Cynghorydd Hill-John. Roedd fel a ganlyn:

Dylid gwneud y newidiadau canlynol i'r cynnig.

Llinell gyntaf: Dileu'r gair Llafur

Pwynt 1: Dileu'r geiriau '*ledled y DU*' a'i disodli gyda *'yng Nghymru a Chaerdydd.'*

Pwynt 2: Dileu Pwynt 2 a'i ddisodli gyda

2. *'Yn nodi bod y Cyngor Llafur yn gyson wedi methu ag adeiladu na darparu nifer ddigonol o dai cyngor a bodloni'r galw cynyddol am dai. Mae angen iddo wneud 'newid mawr' yn y maes hwn ar ôl blynyddoedd o dangyflawni.'*

Pwynt 3: Dileu Pwynt 3 a'i ddisodli gyda '*Yn nodi bod yr ystod eang o chynlluniau'r llywodraeth a chymorth ar gael i bobl sy'n ceisio rhentu neu brynu.'*

Pwynt 4: Dileu'r gair '*Croesawu'* a'i ddisodli gyda '*Gofidio'.*

Pwynt 4: Ychwanegu'r brawddeg canlynol: *'Bwriad y mesurau hyn yw i ddarparu rhyw fath o len i guddio methiant LIC a'r Cyngor i fynd ar ôl problemau cyflenwad tai yng Nghymru, gan gynnwys darpariaeth tai cyngor.'*
Pwynt 5: dileu'r gair '*Cydnabod'* a'i ddisodli gyda '*Nodi'.*

Pwynt 5: ar ôl y gair Cyngor, nodi '*yn ddiweddar*'.

Pwynt 5: Ychwanegu'r brawddeg canlynol: - *'Mae bellach yn glir bod y weinyddiaeth wedi methu â pharchu ei ymrwymiad i'r addewid maniffesto yn 2012 i gynyddu cyflenwad tai fforddiadwy a thai Cyngor ac i gynnig ysgogiad i ddatblygiad modelau tai cydweithredol a chilyddol'.*

Ychwanegu Pwynt 6 newydd:

*'6. Yn nodi bod y Cyngor yn cydnabod ei fethiant ei hun i ddychwelyd lefel ddigonol o dai gwag yn stoc tai'r ddinas. Mae hyn yn wastraff o adnoddau nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, sy'n gofyn am ymdrech yn hytrach na chost'.*

Pwynt 6 gwreiddiol, Pwynt 7 newydd: ychwanegu'r frawddeg ganlynol: - *'Dylai hyn gynnwys asesiad o dechnoleg adeiladu newydd a ddatblygwyd yn Ewrop a rhywle arall ble gall adroddiadau o unedau tai o safon a adeiladwyd yn sydyn am gost isel chwyldroi a gwella'r ddarpariaeth i bobl ar restrau aros'.*

Ychwanegu Pwynt 8: -

*'8. Cydnabod a chefnogi ysbryd dyhead y mae llawer o breswylwyr y Cyngor yn ei deimlo er mwyn gwella eu darpariaeth dai, boed hynny yn y sector breifat neu gyhoeddus'.*

Ychwanegu Pwynt 9:

*'9. Galw ar y Cabinet i sicrhau bod cyfran o dai fforddiadwy a adeiladir mewn datblygiadau newydd ar gael i brynwyr tro cyntaf.
Dylai hefyd annog y gwaith o adeiladu unedau llai i berchnogion tai sy'n dymuno prynu tai lleiaf, gan felly ryddhau tai mwy ar gyfer teuluoedd'.*

Byddai'r cynnig terfynol fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn:

1. Yn cydnabod y diffyg critigol o dai fforddiadwy yng Nghymru a Chaerdydd. Yng Nghaerdydd mae mwy na 8,000 o bobl ar y rhestr aros tai cyffredin ar gyfer tai cymdeithasol, gyda dros 4,000 angen tai.

2. Yn nodi bod y Cyngor Llafur yn gyson wedi methu ag adeiladu na darparu nifer ddigonol o dai cyngor a bodloni'r galw cynyddol am dai.
   Mae angen iddo wneud 'newid mawr' yn y maes hwn ar ôl blynyddoedd o dangyflawni.

3. Yn nodi bod yr ystod eang o chynlluniau'r llywodraeth a chymorth ar gael i bobl sy'n ceisio rhentu neu brynu.

4. Gofidio am bolisi Llywodraeth Cymru o ran atal gwerthu tai cymdeithasol yng Nghymru, a phenderfyniad y Cyngor i ymgynghori ar atal yr hawl i brynu ledled Caerdydd.
   Bwriad y mesurau hyn yw i ddarparu rhyw fath o len i guddio methiant LlC a'r Cyngor i fynd ar ôl problemau cyflenwad tai yng Nghymru, gan gynnwys darpariaeth tai cyngor.

5. Yn nodi bod y Cyngor yn hwyr yn dechrau ar ei ail Raglen Partneriaeth Tai er mwyn adeiladu mwy o dai cyngor a fforddiadwy yng Nghaerdydd.
   Mae bellach yn glir bod y weinyddiaeth wedi methu â pharchu ei ymrwymiad i'r addewid maniffesto yn 2012 i gynyddu cyflenwad tai fforddiadwy a thai Cyngor ac i gynnig ysgogiad i ddatblygiad modelau tai cydweithredol a chilyddol.

6. Yn nodi bod y Cyngor yn cydnabod ei fethiant ei hun i ddychwelyd lefel ddigonol o dai gwag yn stoc tai'r ddinas. Mae hyn yn wastraff o adnoddau nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, sy'n gofyn am ymdrech yn hytrach na chost.

7. Yn galw ar y Cabinet i ymchwilio i ddulliau arloesol eraill, rhai dros dro a pharhaol, er mwyn sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael yng Nghaerdydd. Dylai hyn gynnwys asesiad o dechnoleg adeiladu newydd a ddatblygwyd yn Ewrop a rhywle arall ble gall adroddiadau o unedau tai o safon a adeiladwyd yn sydyn am gost isel chwyldroi a gwella'r ddarpariaeth i bobl ar restrau aros.

8. Cydnabod a chefnogi ysbryd dyhead y mae llawer o breswylwyr y Cyngor yn ei deimlo er mwyn gwella eu darpariaeth dai, boed hynny yn y sector breifat neu gyhoeddus.

9. Galw ar y Cabinet i sicrhau bod cyfran o dai fforddiadwy a adeiladir mewn datblygiadau newydd ar gael i brynwyr tro cyntaf. Dylai hefyd annog y gwaith o adeiladu unedau llai i berchnogion tai sy'n dymuno prynu tai lleiaf, gan felly ryddhau tai mwy ar gyfer teuluoedd.

Cynigiwyd Newid 2 gan y Cynghorydd Carter a'i eilio gan y Cynghorydd Boyle.

Dileu 'Llafur' yn y llinell gyntaf.

Dileu paragraff 2, 3 a 4 a rhoi'r canlynol yn eu lle:

'Cydnabod bod gwerthu tai cyngor yn yr 1980au a'r 1990au ar ostyngiadau enfawr wedi gwaethygu'r broblem dai gyfredol'

Cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus o ran lleihau'r gostyngiad sydd ar gael i bobl sy'n ceisio prynu eu tai cymdeithasol fel bod cynghorau'n gallu adennill y rhan fwyaf o werth yr eiddo.'

Ychwanegu paragraff ychwanegol ar ddiwedd y cynnig:

'Galw ar Lywodraeth Cymru i atal y gostyngiad sy'n weddill ar gyfer yr Hawl i Brynu, fel bod cynghorau'n gallu adennill 100% o'r eiddo sy'n cael eu gwerthi.'

Byddai'r cynnig terfynol fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn:

1. Yn cydnabod y diffyg critigol o dai fforddiadwy ledled y DU. Yng Nghaerdydd mae mwy na 8,000 o bobl ar y rhestr aros tai cyffredin ar gyfer tai cymdeithasol, gyda dros 4,000 angen tai.

2. Cydnabod bod gwerthu tai cyngor yn yr 1980au a'r 1990au ar ostyngiadau enfawr wedi gwaethygu'r broblem dai gyfredol.

3. Cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus o ran lleihau'r gostyngiad sydd ar gael i bobl sy'n ceisio prynu eu tai cymdeithasol fel bod cynghorau'n gallu adennill y rhan fwyaf o werth yr eiddo.

4. Yn nodi bod y Cyngor yn hwyr yn dechrau ar ei ail Raglen Partneriaeth Tai er mwyn adeiladu mwy o dai cyngor a fforddiadwy yng Nghaerdydd.

5. Yn galw ar y Cabinet i ymchwilio i ddulliau arloesol eraill, rhai dros dro a pharhaol, er mwyn sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael yng Nghaerdydd.

6. Galw ar Lywodraeth Cymru i atal y gostyngiad sy'n weddill ar gyfer yr Hawl i Brynu, fel bod cynghorau'n gallu adennill 100% o'r eiddo sy'n cael eu gwerthu.

Cynigiwyd Newid 3 gan y Cynghorydd Marshall a'i eilio gan y Cynghorydd McEvoy.

Dylid gwneud y newidiadau canlynol i'r cynnig: -

Llinell gyntaf: Dileu'r gair Llafur

Pwynt 1: Newid *adnabod* i *cydnabod*

Pwynt 2: Ar ôl '*mynd ar ôl'* dylid ychwanegu: *'y bobl sydd mewn angen difrifol'*

Pwynt 2: Ar ôl '*angen'* dylid ychwanegu'r canlynol: *'gan Lywodraethau Ceidwadol a Llafur'.*

Dileu Pwyntiau 3, 4 a 5

Ychwanegu Pwynt 3 newydd:

*3. Cydnabod bod methiant Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i alluogi Cynghorau i ddefnyddio eu talebion Cyfalaf o werthu tai Cyngor i adeiladu mwy o dai Cyngor wedi gwaethygu'r mater.*

Ychwanegu Pwynt 4 newydd:

*4. Galw ar y Cabinet i weithio gyda LlC a Chynghorau eraill Cymru i ymchwilio i ddulliau arloesol o ddatrys y diffyg tai fforddiadwy ar sail gynllunio rhanbarthol fel y mae Plaid Cymru yn gofyn amdano.*

Ychwanegu Pwynt 5 newydd:

*5. Galw ar y Cabinet i weithio gyda LlC a Chynghorau eraill Cymru i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, sicrhau system o rhent wedi'i reoli yn y sector breifat a'r sector gyhoeddus, er mwyn sicrhau bod prisiau rhent fforddiadwy yn dal i fod yn fforddiadwy, i sicrhau bod pob tenantiaeth yn denantiaeth diogel ac i weithredu polisi dim dadfeddiant ar gyfer y rheiny sy'n dioddef oherwydd y dreth ystafell wely.*

Byddai'r cynnig terfynol fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn

1. Cydnabod y diffyg critigol o dai fforddiadwy ledled y DU. Yng Nghaerdydd mae mwy na 8,000 o bobl ar y rhestr aros tai cyffredin ar gyfer tai cymdeithasol, gyda dros 4,000 angen tai.
2. Cydnabod bod Llywodraethau Ceidwadol a Llafur yn gwerthu tai cyngor wedi gwaethygu'r broblem o helpu'r bobl hynny sydd mewn angen difrifol.

3. Cydnabod bod methiant Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i alluogi Cynghorau i ddefnyddio eu talebion Cyfalaf o werthu tai Cyngor i adeiladu mwy o dai Cyngor wedi gwaethygu'r mater.

4. Galw ar y Cabinet i weithio gyda LlC a Chynghorau eraill Cymru i ymchwilio i ddulliau arloesol o ddatrys y diffyg tai fforddiadwy ar sail gynllunio rhanbarthol fel y mae Plaid Cymru yn gofyn amdano.

5. Galw ar y Cabinet i weithio gyda LlC a Chynghorau eraill Cymru i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, sicrhau system o rhent wedi'i reoli yn y sector breifat a'r sector gyhoeddus, er mwyn sicrhau bod prisiau rhent fforddiadwy yn dal i fod yn fforddiadwy, i sicrhau bod pob tenantiaeth yn denantiaeth diogel ac i weithredu polisi dim dadfeddiant ar gyfer y rheiny sy'n dioddef oherwydd y dreth ystafell wely.

6. Yn galw ar y Cabinet i ymchwilio i ddulliau arloesol eraill, rhai dros dro a pharhaol, er mwyn sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael yng Nghaerdydd.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig. Ar ddiwedd y drafodaeth gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Keith Jones i grynhoi.

Cynhaliwyd pleidlais ar bob Newid.

Pleidlais ar Newid 1 fel y'i cynigwyd gan y Cynghorydd Walker. **COLLWYD** y bleidlais.

Pleidlais ar Newid 2 fel y'i cynigwyd gan y Cynghorydd Carter. **COLLWYD** y bleidlais.

Pleidlais ar Newid 3 fel y'i cynigwyd gan y Cynghorydd Marshall. **COLLWYD** y bleidlais.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y cynnig fel y cyflwynodd y Cynghorydd Keith Jones ef. **DERBYNIWYD** y Cynnig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor Llafur hwn:

1. Yn cydnabod y diffyg critigol o dai fforddiadwy ledled y DU. Yng Nghaerdydd mae mwy na 8,000 o bobl ar y rhestr aros tai cyffredin ar gyfer tai cymdeithasol, gyda dros 4,000 angen tai.
2. Yn cydnabod bod gwerthu tai cyngor wedi gwaethygu'r broblem o fynd ar ôl angen am dai.
3. Cydnabod bod Llafur yng Nghaerdydd a Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno sawl cynllun, megis lleihau'r gostyngiad sydd ar gael, sydd wedi arafu nifer yr 'hawl i brynu'.
4. Croesawu polisi Llywodraeth Cymru sy'n cynnig atal gwerthu tai cymdeithasol yng Nghymru, a phenderfyniad y Cyngor i ymgynghori ar atal yr hawl i brynu ledled Caerdydd.
5. Yn nodi bod y Cyngor yn hwyr yn dechrau ar ei ail Raglen Partneriaeth Tai er mwyn adeiladu mwy o dai cyngor a fforddiadwy yng Nghaerdydd.
6. Yn galw ar y Cabinet i ymchwilio i ddulliau arloesol eraill, rhai dros dro a pharhaol, er mwyn sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael yng Nghaerdydd.

112 : CYNNIG 2

Cyn dechrau'r eitem hon, cafwyd Cynnig heb rybudd gan y Cynghorydd Gordon dan Reol Gweithdrefnol y Cyngor 25 (a) (viii) y dylid symud y cyfarfod ymlaen i'r busnes nesaf. Cafodd y cynnig hwn ei eilio gan y Cynghorydd White.

Ar ôl derbyn cyngor gan y Swyddog Monitro, rhoddodd yr Arglwydd Faer wybod na fyddai hi'n derbyn cau'r cynnig fel y cynigwyd yn unol â Rheol Gweithdrefnol y Cyngor 26.

Yn unol â'r rheolau gweithdrefnol, cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig heb Rybudd fel y'i cynigwyd gan y Cynghorydd Gordon.

**COLLWYD** y bleidlais.

Aeth yr Arglwydd Faer ymlaen i'r ail rybudd o gynnig a gynigwyd gan y Cynghorydd Neil McEvoy a'i eilio gan y Cynghorydd Tariq Awan. Roedd y cynnig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn cytuno ar y canlynol:

1. i groesawu'r penderfyniad i beidio â lesu'r cyn-adeilad PDSA yn Butetown er mwyn iddo ddod yn ganolfan ail-sefydlu ar ôl defnydd cyffuriau.

2. oherwydd y broblem eang o nodwyddau budr wedi'u taflu mewn rhai rhannau o'r Ddinas, dylid dyrannu adnoddau glanhau arbenigol ychwanegol i ardaloedd o'r fath er mwyn datrys y broblem.

3. er mwyn lleddfu'r broblem o chwistrellu cyffuriau mewn mannau cyhoeddus yng Nghaerdydd, bydd y Cyngor yn cefnogi cynllun peilot o gynnal ystafelloedd chwistrellu diogel sy'n cael eu goruchwylio'n feddygol, pan fyddwn wedi cytuno gydag asiantaethau partner ac awdurdodau.

Rhoddodd yr Arglwydd Faer wybod bod un newid i'r Cynnig hwn wedi'i dderbyn.

Cynigiwyd <u>Newid 1</u> gan y Cynghorydd Elsmore, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Ali Ahmed ac roedd fel a ganlyn: -

Dylid gwneud y newidiadau canlynol i'r cynnig:

Pwynt 1: yn y llinell cyntaf, ar ôl '*oherwydd'* dylid ychwanegu'r geiriau *'gan bartneriaid'*

Pwynt 1: dileu'r holl eiriau ar ôl Butetown ac ychwanegu: - *'ar gyfer cyngor, gwybodaeth a gwasanaethau cwnsela ynghylch camddefnyddio sylweddau gyda ffocws penodol ar alcohol'*

Pwynt 2: dileu popeth hyd at 'Arbenigol' ac ychwanegu: *'Fel nawr, bydd adnoddau glanhau arbenigol yn cael eu dyrannu i glirio crynodiadau o nodwyddau sydd wedi'u taflu, a bydd hyn yn parhau'.*

Pwynt 3: dileu popeth a'i ddisodli gyda

3. *'Mae'r Cyngor hwn yn cefnogi ymdrechion yr holl bartneriaid, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Bwrdd Cynllunio Ardal, Heddlu De Cymru a sefydliadau trydydd sector, er mwyn lleihau niwed a gwella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth a phreswylwyr'*

Byddai'r cynnig terfynol fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn cytuno ar y canlynol:

1. Croesawu penderfyniad partneriaid i beidio â llesu'r cyn-adeilad PDSA yn Butetown ar gyfer cyngor, gwybodaeth a gwasanaethau cwnsela ynghylch camddefnyddio sylweddau, gyda ffocws penodol ar alcohol.

2. Fel nawr, bydd adnoddau glanhau arbenigol yn cael eu dyrannu i glirio crynodiadau o nodwyddau sydd wedi'u taflu, a bydd hyn yn parhau.

3. Mae'r Cyngor hwn yn cefnogi ymdrechion yr holl bartneriaid, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Bwrdd Cynllunio Ardal, Heddlu De Cymru a sefydliadau trydydd sector, er mwyn lleihau niwed a gwella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth a phreswylwyr

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig. Ar ddiwedd y drafodaeth gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd McEvoy i grynhoi.

Gofynnodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y diwygiad a gynhigiodd y Cynghorydd Elsmore.

**ENILLWYD** y bleidlais.

Cafodd y Cynghorydd Elsmore gyfle i ymateb cyn i bleidlais gael ei gynnal ar y Cynnig Diweddaraf.

**DERBYNIWYD** y Cynnig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn cytuno ar y canlynol:

1. Croesawu penderfyniad partneriaid i beidio â llesu'r cyn-adeilad PDSA yn Butetown ar gyfer cyngor, gwybodaeth a gwasanaethau cwnsela ynghylch camddefnyddio sylweddau, gyda ffocws penodol ar alcohol.

2. Fel nawr, bydd adnoddau glanhau arbenigol yn cael eu dyrannu i glirio crynodiadau o nodwyddau sydd wedi'u taflu, a bydd hyn yn parhau.

Mae'r Cyngor hwn yn cefnogi ymdrechion yr holl bartneriaid, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Bwrdd Cynllunio Ardal, Heddlu De Cymru a sefydliadau trydydd sector, er mwyn lleihau niwed a gwella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth a phreswylwyr

113 : CWESTIYNAU LLAFAR

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Carter*

A yw'r Aelod Cabinet yn meddwl y bydd yn gallu cyflawni'r rhestr gyfyngedig o waith priffyrdd y gwnaeth e' gyhoeddi ym mis Medi erbyn diwedd mis Mawrth, yn sgil gwaith yn gorfod atal am ddau fis oherwydd tywydd garw?

**<u>Ymateb:</u>** *Y Cynghorydd Sir Patel*

Os rydych yn cyfeirio at y rhaglenni ail-wynebu, ail-adeiladu a thrin wynebau'r ffyrdd, ac nid y gwaith trwsio priffyrdd sy'n digwydd drwy gydol y flwyddyn, yna ydw yw'r ateb.

**<u>Cwestiwn ategol:</u>** *Y Cynghorydd Sir Carter*

Yn sgil y ffaith bod y rhestr dan sylw wedi'i chyhoeddi ym mis Awst a'i fod nawr yn atal am ddau fis, a yw'r Aelod Cabinet yn rhannu fy mhryder ei bod hi'n ymddangos ychydig yn od i'r etholaeth bod gwerth bron blwyddyn o waith yn mynd i gael ei wneud mewn un neu ddau fis yn syth cyn etholiad y Cyngor?

**<u>Ymateb:</u>** *Y Cynghorydd Sir Patel*

Na, nid wyf o’r un farn.

Dyma’r ffeithiau: erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, bydd 579 o ffyrdd wedi’u hail-wynebu ers 2012.

Rwy’n siŵr y byddwch yn cytuno bod hyn ymhell o fod yn gyfyngedig o’i gymharu â 215 o ffyrdd yn cael eu hail-wynebu yn ystod y weinyddiaeth Dem Rhyd/Plaid rhwng 2008/2012.

Mae’r gwaith yn mynd rhagddo yn ôl yr amserlen, fel pob blwyddyn ariannol arall, ac rydym yn gobeithio cwblhau'r gwaith erbyn fis Chwefror a Mawrth y flwyddyn nesaf.

**<u>Cwestiwn ategol:</u>** *Y Cynghorydd Sir Robson*

Wrth ddechrau cymharu nifer y ffyrdd sydd wedi’u hail-wynebu rhwng gweinyddiaethau gwahanol, allwch chi roi’r milltiroedd o ffyrdd yn y ddinas sydd wedi’u hail-wynebu rhwng gweinyddiaethau gwahanol? Wedyn gallwn ni gael darlun go iawn o’r sefyllfa.

**<u>Ymateb:</u>** *Y Cynghorydd Sir Patel*

Ysgrifennwch nodyn yn gofyn am hynny ac rwy'n siŵr y gallaf ymchwilio i hynny.

**<u>Cwestiwn:</u>** *Y Cynghorydd Sir Walker*

Oherwydd diffyg capasiti, nid oes gan llawer o'r trenau cynnar o Gwm Rhymni sy’n dod â chymudwyr i mewn i Gaerdydd le i deithwyr sy’n dymuno eu defnyddio nhw. Nodwyd y broblem hon yng ngorsafoedd Llys-faen a Draenen Pen-y-graig ac nid yw’n gwella o gwbl wrth i’r trenau nesáu at Gaerdydd. Mae hefyd problem ynglŷn â pharcio yn y gorsafoedd hyn gan eu bod yn llawn yn aml.

Deallaf bod Arriva yn aros nes bydd y system Metro wedi'i chyflwyno cyn buddsoddi i stoc newydd. A wneith yr Arweinydd egluro pa gamau y gallai ef gymryd yn bersonol

a chan weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatrys y broblem o gapasiti a stoc Trenau Arriva a Network Rail?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Bale*

Fel y gwyddoch, rydym dan bwysau oherwydd y setliad datganoli presennol ynghylch trenau, ac mae'n rhaid i ni weithio o amgylch y berthynas gyda Llywodraeth y DU a Network Rail wrth edrych ar y materion hyn. Rwy'n falch o ddweud bod y cytundeb am y Fargen Ddinesig werth £1.2biliwn wedi dechrau gweithredu fframwaith ymysg y 10 cyngor i geisio ymgysylltu am drafnidiaeth ranbarthol, ac wrth gwrs rydym yn sefydlu awdurdod trafnidiaeth rhanbarthol newydd i'n helpu ni i wneud hynny.

Ond mae'n rhaid i mi ddweud, 'dw i'n siomedig iawn yng nghyhoeddiad y Canghellor ddoe am ddatganiad yr Hydref. Oherwydd nawr, er bod y buddsoddiadau sydd eu hangen arnom yn dod o ran y metro, beth rydyn ni eisiau yn y diwedd yw gorsaf sy'n gallu ymdrin â'r capasiti cynyddol yn sgil y metro. Hyd heddiw, nid ydym wedi cael cadarnhad gan y Canghellor ynghylch Gorsaf Ganolog Caerdydd. Ac mae hynny'n rhywbeth rwyf yn erfyn ar fy nghydweithwyr yn y siambr i lobio yn ei gylch cymaint ag sy'n bosib, oherwydd mae'n hanfodol i ddyfodol y ddinas.

O ran dy bwynt penodol am feysydd parcio, fel Cynghorydd ward lleol rwyf wedi mynd ar ôl hyn droeon gyda gweithredwyr trenau ac mae'n rhywbeth y byddaf yn parhau i fynd ar ôl. Ond mae'n rhaid i mi ddweud, mae penderfyniadau blaenorol yn y rhan hon o'r ddinas wedi golygu ein bod wedi colli cyfleoedd o ran parcio ceir a darpariaeth parcio i'r dyfodol.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Walker*

Rwy'n cefnogi'r ymdrechion i wella Gorsaf Ganolog Caerdydd ond mewn rhai ffyrdd, rwy'n poeni mwy am fy ngorsaf drenau lleol, oherwydd dyna ble mae pobl yn mynd o'u gwelyau am 7.50 yn y bore i ddal y trên i Gaerdydd ond eto'n methu mynd ar y trên. Mae'r platfform yn ddigon hir ond nid yw Arriva Trains yn darparu digon o drenau. A maen nhw'n gwrthod prynu unrhyw stoc ychwanegol nes fydd y cynllun Metro wedi'i gymeradwyo. Ac efallai na fydd hynny byth yn digwydd, neu efallai y bydd yn araf deg – gall gymryd blynyddoedd.

Felly, gyda'r CDLl yn dod i fyny nawr Arweinydd, mae'n fwyfwy pwysig ein bod ni'n mynegi barn. Hoffwn ofyn, os gweli di'n dda, i ategu at y sylwadau a'r barn hynny gyda phwy bynnag – Arriva Trains, Llywodraeth Cymru a Network Rail – i weld beth all ei wneud i sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol; fel eu bod nhw'n rhagweld y problemau cyn iddynt ddod yn sefyllfaoedd argyfwng.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Bale*

Rwy'n cytuno cant y cant bod angen i ni ymgysylltu â gweithredwyr. Fel y soniais, o ran y cyfrifoldeb statudol ar gyfer ariannu seilwaith trenau yng Nghymru, mae hynny ynghlwm wrth Deddf Rheilffyrdd 2005 o ran rhai o'r cyfrifoldebau.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorwyr Sir McEvoy*

Faint mae angen i Gaerdydd ddod o hyd iddo i roi i mewn i'r Fargen Ddinesig?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Bale*

O ran y Fargen Ddinesig, rwyf o'r farn ei bod hi'n bwysig ac yn werthfawr nid yn unig i'r ddinas ond i'r rhanbarth ehangach hefyd. O ran y cyllid, rydyn ni'n dal yn gweithio drwy rhai o oblygiadau ariannol cymhleth hynny. Ond nid yw hyn yn ymwneud ag arian yn unig. Nid oedd erioed am arian – mae'n ymwneud â datblygu strategaeth ranbarthol ehangach sy'n creu swyddi a chyfleoedd i'r rhanbarth, rhywbeth sy'n hanfodol bwysig.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Marshall*

Ydych chi'n cytuno bod y rhwydwaith ffyrdd yng Nghaerdydd wedi cyrraedd capasiti critigol, a sut rydych chi'n mynd ar ôl hyn?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Patel*

Na, nid wyf yn cytuno.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Marshall*

Y rheswm y gofynnais y cwestiwn hwn oedd oherwydd rwy'n cael cwynion am bws rhif 11 pob dydd. Ysgrifennais lythyr at Bws Caerdydd am hyn a'r ymateb (yn gryno) oedd, "mae'r blaenoriaethau o ran gosodiad a'r lôn ger cyffordd Glossop Terrace a Heol Casnewydd wedi newid. Mae hyn wedi cael effaith fawr ar wasanaethau. Ar gyfartaledd, mae'n cymryd dwywaith gyhyd i'n bysus ni. Yn gyffredinol, mae lefel traffig rhwydwaith ffyrdd y ddinas yn dal i waethygu. Mae'r rhwydwaith ffyrdd wedi cyrraedd capasiti critigol."

Daeth hynny gan Bws Caerdydd, a rydych chi'n dweud nad ydych chi'n cytuno. Yn amlwg, mae Bws Caerdydd yn teimlo'n wahanol.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Patel*

Yn amlwg, mae'n rhaid i ni egluro bod rhaid disgwyl tagfeydd yn ystod adegau prysur o ran cymudo a chyfnodau eraill mewn dinas llwyddiannus fel Caerdydd, sy'n dal i dyfu. Fel y gwyddoch, mae Caerdydd yn wahanol iawn i gorllewin Cymru.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Dianne Rees*

Efallai y gwnewch chi anghytuno, ond rwyf wedi ysgrifennu at yr Adran Briffyrdd yn ddiweddar gan ddweud ei bod hi wedi cymryd awr a thri chwarter i deithio o fy nghartref ym Mhentref Llaneirwg i Benarth, gan adael cyn ac ymhell cyn wyth o gloch y bore. Nid yw hyn yn iawn mewn dinas o faint Caerdydd. A bu iddo gymryd 45 munud i mi deithio llai na milltir. Roedd hi'n hunllef ar yr A48, Eastern Avenue, Heol

Casnewydd, yr A4232. Buaswn i wedi gallu mynd i Birmingham mewn awr a thri chwarter heb draffig ar y ffyrdd.

Mae’n ddrwg iawn gen i ddweud ond mae’n hollol hurt i chi wadu bod y ddinas yn brysur ofnadwy ar adegau. Bydd 35,000 o dai newydd yn dod i Gaerdydd ac rydych chi’n dweud nad oes tagfeydd ofnadwy.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Patel*

'Dw i ddim yn gwadu'r peth o gwbl. Mae’n rhaid i chi ddeall bod damweiniau’n digwydd ar y briffordd. A phan maen nhw, fel yr enghreifftiau yr wyt ti newydd eu rhoi, dyna beth sy’n achosi’r tagfeydd ofnadwy sy’n digwydd mewn unrhyw brif ddinas. Ac nid oes modd osgoi hynny yn anffodus. Fel y soniais, rwyf wedi bod yn Llundain ac mae llawer ohono - mae'n ddinas fawr - ac mae llawer o dagfeydd yno. Mae’n digwydd.

Ond beth sy’n bwysig yma yw bod y gwelliannau i drafnidiaeth sydd eu hangen i gefnogi twf y ddinas yn cael eu nodi yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol a’r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y gwelliannau o ran trafnidiaeth cynaliadwy yn y cynlluniau hyn yn rhoi mwy o gyfle i bobl i gerdded, beicio a theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na char preifat. Ac yn anffodus, eich plaid chi wnaeth bleidleisio dros y CDLl. Ac oherwydd na wnaethoch chi bleidleisio o blaid y CDLl, nid oeddech chi eisiau i bobl gerdded – roeddech chi eisiau i bobl yrru i bobman. A dyna’r broblem.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Keith Jones*

All yr Arweinydd roi diweddariad ar y gwaith o ailddatblygu Neuadd Llanrhymni?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Bale*

Rwy'n falch o'r gwaith y mae Cynghorwyr Llanrhymni wedi bod yn ei wneud o ran adfer Neuadd Llanrhymni gydag Ymddiriedolaeth Neuadd Llanrhymni.

Fel y gwyddoch, nhw yw lesddeiliaid yr adeilad hwnnw ar hyn o bryd ac maen nhw’n gweithredu ac yn bwriadu gweithredu’r adeilad at ddibenion chwaraeon a hamdden cymunedol.

Mae’r les yn cynnwys cymal sy’n nodi cyfnod o dair blynedd er mwyn i’r Ymddiriedolaeth wneud gwaith i adnewyddu’r adeilad.

Mae’r Ymddiriedolaeth wedi bod yn aros am ganlyniad cais am grant i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gyda'ch cefnogaeth chi mae'r Ymddiriedolaeth wedi mwynhau ymrwymiad - waeth beth fydd canlyniad eu cais - a fydd yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd ac yn dod i ben o fewn blwyddyn, yn barod ar gyfer y gymuned leol.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Keith Jones*

Ym marn yr Arweinydd, pa gyfleoedd fydd ail-ddatblygu Neuadd Llanrhymni yn cynnig nid yn unig i Lanrhymni ond i Gaerdydd yn ei chyfanrwydd, yr adeilad

hanesyddol hwn, a sut allwn ni sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio gan gymaint o bobl ag sy'n bosib?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Bale*

Rwyf wedi bod yn yr adeilad. Rwyf wedi gweld y tu mewn iddo. Mae'n gyfleuster gwych gyda llawer o botensial. Ac rwy'n meddwl bod y lleoliad yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i weithredu fel hyb nid yn unig i'r gymuned leol yn Llanrhymni, ond yn ehangach hefyd. Ac rwy'n sicr y bydd yr ymddiriedolaeth ei hun, sy'n gweithio gyda'r Cyngor a chithau a'r gymuned leol yn gwneud yn siŵr bod y buddsoddiad yn digwydd i'r gymuned honno a chymunedau eraill ledled y ddinas.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Margaret Jones*

A fyddech chi'n gytuno bod y Cynghorydd Bowen, o'r weinyddiaeth Dem Rhyd-Plaid diwethaf, wedi bod â llawer o syniadau wrth edrych ar Neuadd Llanrhymni?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Bale*

Ni allaf ddweud unrhyw beth am gyn-Gynghorwyr. 'Dw i wedi mynd ar ôl y mater hwn yn ddiweddar ac mae Steve Borley wedi creu argraff mawr arna i, a'r bobl eraill sydd wedi cymryd diddordeb personol yn y project hwn am eu bod nhw'n dod o'r gymuned, maen nhw'n gweld potensial yr adeilad, ac maen nhw eisiau gweithio gyda'r bobl yn yr ardal i fanteisio ar yr ased hon i'r gymuned i'r dyfodol.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Boyle*

Mae'r asesiad trafnidiaeth ar gyfer Ysgol Gynradd Howardian yn nodi "nid oes rheswm i awgrymu y byddai'r cynnig yn achosi problemau o ran diogelwch ar y ffyrdd." A yw'r Aelod Cabinet wirioneddol yn credu nad oes rheswm?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Merry*

Roedd yr asesiad trafnidiaeth annibynnol yn ystyried cyd-destun safle presennol Ysgol Gynradd Howardian newydd arfaethedig. Fel y nodir yn yr asesiad, bydd unrhyw faterion sy'n codi o ganlyniad i'r cynnydd mewn traffig a thrafnidiaeth yn yr ardal yn gallu cael eu rheoli'n effeithiol yn unol â pholisïau cenedlaethol a lleol.

Mae'r tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion yn gweithio'n agos gyda'r adrannau Priffyrdd a Chynllunio er mwyn asesu effaith bosib yr ysgol newydd. Bu ystyriaeth ofalus o ddulliau/llwybrau teithio llesol i ysgolion er mwyn lleihau'r defnydd o geir a'r effaith ar breswylwyr yn ystod adegau codi/gollwng. Yn amlwg, mae diogelwch ein plant wrth deithio i ac o'r ysgol yn flaenoriaeth.

Yn amlwg, yn yr un modd, mae gan lywodraethwyr gyfrifoldeb pwysig wrth ddatblygu cynlluniau teithio lles

ol ar gyfer eu hysgolion.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Boyle*

Rydym wirioneddol angen yr ysgol hon ond, fel y dywedoch chi, mae diogelwch y plant yn hanfodol bwysig. Nawr, mae asesiad trafnidiaeth yr ymgynghorydd allanol yn nodi nad oes problem o ran diogelwch ar y ffyrdd ynghlwm wrth y cynigion hyn. Ac eto, mae asesiad trafnidiaeth sydd wedi'i gynhyrchu gan Priffyrdd yn nodi'r union broblemau y gwnaethon ni feddwl amdanyn nhw wrth ysgrifennu atoch am y tro cyntaf yn 2014.

Felly, fel y mae pethau ar hyn o bryd, beth ydyn ni i fod i gredu? Yw asesiad trafnidiaeth yr ymgynghorydd allanol yn gywir, neu yw adroddiad yr adran Briffyrdd yn gywir? Ydych chi'n credu bod materion diogelwch ar y ffyrdd ynghlwm wrth y cynnig fel ag y mae ar hyn o bryd neu beidio?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Merry*

Os edrychwch chi ar f'ymateb, Joe, mae'n dweud “mae modd lleddfu unrhyw faterion sy'n codi o ganlyniad i'r cynnydd mewn traffig a thrafnidiaeth yn yr ardal yn sgil yr ysgol newydd". Byddai'n wirion iawn i awgrymu na fyddai creu ysgol newydd yn creu problemau. Ond y ffaith yw, mae modd mynd i'r afael â nhw a'u lleddfu.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Weaver*

Yn eich ymateb, gwnaethoch chi sôn am gynllunio teithio llesol i bobl sy'n mynd i'r ysgol. A dyna yw'r ffordd orau o leihau unrhyw broblemau traffig yn ôl chi, sef gwneud i pobl gerdded neu feicio i'r ysgol ble bo'n bosibl. Hoffwn ofyn, y tro nesaf y byddwch chi'n trafod gyda phenaethiaid llywodraethwyr neu mewn cyfarfod llywodraethwyr, a allwch chi annog cyrff llywodraethu i gysylltu â grwpiau megis Living Streets a Sustrans a sefydliadau eraill a fyddai'n gallu helpu i ysgolion wneud hynny?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Merry*

Gallaf. Os oes unrhyw lywodraethwyr ysgol yma, mae Living Streets yn sefydliad defnyddiol dros ben.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Robson*

Pa ymdrechion wnaethpwyd i geisio sicrhau noddwr ar gyfer y Goeden Nadolig y Nadolig hwn?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Bradbury*

Gallaf gadarnhau bod y Cyngor wedi ceisio mynd ar ôl pob cyfle noddi oedd ynghlwm wrth “Nadolig Caerdydd” yng nghanol y ddinas eleni yn yr un modd ag y mae wedi bob blwyddyn.

Nid oedd y penderfyniad i osod strwythur artiffisial yn unrhyw beth i wneud gyda fforddiadwyedd neu ddiffyg noddwr.

Efallai y bydd yr holl gyhoeddusrwydd sydd wedi'i greu oherwydd y mater yn codi proffil y goeden ac y byddwn ni'n fwy llwyddiannus wrth sicrhau noddwr y flwyddyn nesaf.

Mae'n siŵr eich bod wedi clywed yr adborth positif a gafwyd pan wnaethon ni osod y carw goleuadau y tu allan i'r Castell.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Robson*

'Dw i'n ei chael hi'n od iawn bod y Cyngor wedi synnu dros y Nadolig. Mae mor od y bydd y Cyngor eisiau coeden y gall pobl ddod draw i edrych arni mewn mis. Ac wrth gwrs, mae'n dod o Tsieina, sydd hyd yn oed yn fwy od pan mae cymaint o fusnesau lleol yng Nghaerdydd, yng Nghymru, yn y DU y gallwn ni wedi'u defnyddio fel noddwyr, neu fel gwnaeth y Cynghorydd Cowan efallai y bydden ni wedi gallu cael coeden lai, ond coeden wedi'i rhoddi i'r ddinas yn eithaf hawdd.

'Dw i'n cael y strategaeth yn od iawn, a 'dw i'n meddwl bod hyn yn dangos pa mor wael yw perthynas y weithrediaeth hon gyda busnesau'r ddinas. Rydym wedi gorfod dioddef y sefyllfa sydd ohoni.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Bradbury*

Ynglŷn â'r pwynt olaf, mae Admiral yn noddi Gŵyl y Gaeaf y tu allan, a gwnaethon nhw noddi'r goeden y llynedd.

Y broblem yw ein bod ni'n credu y bydd y goeden yn ffantastig. Unwaith y byddi di'n ei gweld hi, a bydd preswylwyr Caerdydd yn ei gweld hi, bydd hi'n wych. Mae llawer yn sôn nad oes coeden yng nghanol y ddinas eto, ac felly gwnes i gyfri' a chyfri' chwech wrth gerdded drwy Ganolfan Dewi Sant.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir McEvoy*

Pryd fydd y Goeden Nadolig yn cyrraedd?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Bradbury*

Cyn bo hir 'dw i'n gobeithio. O ddifri' rŵan, dim ond £30,000 gwnaeth y goeden gostio dros dair blynedd. Mae hynny'r un peth â £10,000 y flwyddyn.

Hyd yn oed gyda noddwr, roedd coeden y llynedd yn costio £15,000. Felly rydyn ni'n gwneud arbediad ar y goeden.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir McEvoy*

All yr Aelod Cabinet roi diweddariad i ni am y cyn-ganolfan ailgylchu ar Waungron Road?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Patel*

Ers ein cyfarfod ym mis Mawrth, rydym wedi cyflawni dyluniad manwl iawn o gynllun hyb Cyfnewidfa Drafnidiaeth Gorllewin Caerdydd ac rydym wedi cadarnhau caniatâd cynllunio.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir McEvoy*

A yw'r Aelod Cabinet yn hyderus bod y £500,000 a ddyrannwyd ar gyfer Waungron Road yn cynrychioli gwerth am arian, o ystyried ei ddefnydd yn y gorffennol?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Patel*

Rwy'n hyderus y bydd cymunedau Caerdydd yn elwa'n o hyn. Mae angen i bawb yn y siambr ddeall na wnaeth unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad i'r Adran Gynllunio ynghylch Cyfnewidfa Drafnidiaeth Gorllewin Caerdydd yn Waungron Road. Felly mae'n amlwg eich bod chi'n cefnogi hyn; fel arall, byddwch chi wedi cyflwyno gwrthwynebiad i'r cais.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir McGarry*

A all yr Aelod Cabinet perthnasol roi diweddariad ar nifer y sbwriel sydd wedi'i glirio yn ystod y gwaith glanhau trylwyr diweddaraf ym Mhlasnewydd?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Gwnaeth y gwaith clirio yn Ward Plasnewydd ddigwydd yn ystod yr wythnos yn dechrau 31 Hydref. Gwnaeth y timau lanhau 31 stryd a gwaredu ar 4.63 tunnell o wastraff a'i ailgylchu ble bo'n bosibl.

Mae'r strydoedd a dargedwyd yn cynnwys Oakfield Street, Partridge Road, Elm Street, Wordsworth Avenue, Oxford Lane, Vere Street, Byron Street, Milton Street a Talworth Street i enwi rai ohonynt, gyda'r rhan ddeheuol o City Road hefyd yn cael ei glanhau cyn cyfnod prysur y ffyrdd.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir McGarry*

Rwy'n falch iawn o'r gwaith clirio dwys. 'Dw i'n meddwl ei fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Ond, gyda diolch i Cadw'r Rhath yn Daclus a Grŵp Preswylwyr y Rhath sydd ynghlwm wrth godi sbwriel yn rheolaidd, beth yr hoffwn i ei wneud yw datrys pam fod pobl yn taflu sbwriel a cheisio addysgu pobl i beidio â gwneud hynny. Pe byddai presenoldeb gweledol yn dangos y bydden nhw'n derbyn diryw am daflu sbwriel, ni fyddai'n digwydd rhagor.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Ie, 'dw i'n meddwl y byddai pawb yma yn hoffi darganfod pam bod pobl yn taflu sbwriel oherwydd 'dw i'n siŵr nad oes unrhyw un ohonom ni yn y siambr yn gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n digwydd, ac mae'n digwydd ar hyd a lled y DU. Rydym

wedi ceisio lleddfu hyn cyn belled ag y gallwn ni, ac rydym wedi cyflogi dau dîm gorfodi newydd yn benodol at y diben hwn. Byddant yn mynd o amgylch y ddinas, ac maen nhw eisoes yn gwneud hynny, gan gymryd camau gorfodi. A 'dw i'n meddwl mai dyna'r unig ffordd y bydd pobl yn dysgu yn anffodus.

Rwy'n edrych ymlaen at helpu, pan fyddwn ni'n mynd i Blasnewydd eto ar gyfer y gwaith clirio nesaf, ac rwy'n gwerthfawrogi'r help a'r cymorth yr ydyn ni'n ei gael gan Gynghorwyr lleol a'r grwpiau gwirfoddoli.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Rea*

Roedd pawb yn edrych ymlaen yn fawr at y blitz yn dod i Blasnewydd. Fodd bynnag, roeddem ni aelodau o Cadw'r Rhath yn Daclus – ac rwyf i'n un ohonyn nhw - yn falch iawn ei fod yn mynd i gael ei lanhau o'r diwedd.

Fodd bynnag, o ran y gwaith a wnaethpwyd, roedd y rhan fwyaf o'r aelodau pan roeddwn i ar y gwaith codi sbwriel wythnos yn ddiweddarach o'r farn y gallen nhw fod wedi gwneud mwy o waith yn hanner yr amser.

Felly, o ystyried cyn lleied o'r ward a gliriwyd, un o'r wardiau mwyaf yn y ddinas o ran nifer y strydoedd… Rwy'n gwybod dy fod wedi dweud na alli di ddweud wrtha' i yn syth bin, ond alli di geisio gweithio allan pa mor hir y bydd hi'n cymryd i glirio'r ward cyfan? Oherwydd mae fy mhreswylwyr i ac aelodau Cadw'r Rhath yn Daclus wirioneddol eisiau gwybod hynny.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Wrth gwrs, mae mwy o waith i'w wneud o hyd. Ac rwy'n siŵr bod y bobl a aeth i glirio'r sbwriel wedi gwneud hynny'n eithaf sydyn.

Fodd bynnag, mae'n debyg nad wyt ti'n deall beth yw'r blitz. Efallai na es di allan i helpu. Mae'r blitz yn golygu gwaith glanhau trylwyr a manwl. Roedd hynny'n golygu pobl yn mynd allan ac yn clirio'r gwteri, ac yn glanhau'r bylchau rhwng palmentydd. Nid oedd yn golygu codi sbwriel yn unig.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Woodman*

A wneith yr Aelod Cabinet roi gwybod a ydy hi'n hapus gyda'r gwiriadau ansawdd cyfredol yn dilyn gwaith trwsio i eiddo'r Cyngor, ac a fydd mwy o wiriadau ansawdd cyfredol yn digwydd unwaith y bydd y cam comisiynu ar gyfer Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Tai a'r Addasiadau i bobl Anabl ar waith, yn unol ag adroddiad Cabinet 21/11/16?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Elsmore*

Mae swyddogion technegol y Cyngor yn ymgymryd ag archwiliadau ansawdd, ac roedd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi'n fisol er mwyn nodi pryderon am unrhyw waith adferol. Yna, caiff y materion eu codi gyda chontractwyr mewn cyfarfodydd rheoli contractau a drefnir. O ystyried bod 90% o'r gwaith ymatebol yn cael ei wneud yn fewnol bellach, mae gwiriadau ansawdd hefyd yn cael eu cynnal.

Rydym hefyd yn cynnal arolygon ffôn pob mis i sicrhau boddhad gyda'r gwasanaeth atgyweirio cyffredinol. Mae gennym gyfradd foddhad o 88% hyd yma eleni. Ac mae hynny'n uwch na tharged y gwasanaeth.

Bydd y trefniadau cytundebol newydd yn cynnwys mesurau perfformiad ar gyfer ansawdd y gwaith. Bydd contractwyr sy'n methu â bodloni'r safon ofynnol yn destun dirwyon ariannol, ac efallai bydd torri'r contract yn ddifrifol yn arwain at ddiddymu'r fframwaith.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Woodman*

Diolch yn fawr iawn am yr ymateb hwnnw, ac rwy'n falch o'i glywed oherwydd rydym wedi cael llawer o broblemau yn fy ward i yn ddiweddar ble nad yw'r gwaith trwsio wedi bod yn ddigonol ac mae'r contractwyr wedi gorfod dod yn ôl drosodd a throsodd.

Pan welsoch chi y bydd yr un newydd yn ymgymryd â'r gwiriadau newydd a bydd dirwyon ariannol yn cael eu cyflwyno, a fyddwch chi'n ymrwymo i roi gwybod i Aelodau ddwywaith y flwyddyn os oes unrhyw gontractwyr yn gorfod talu dirwyon ariannol ac os ydych chi'n gorfod diddymu'r contractau os gwelwch yn dda? Oherwydd mae'n rhwystredig iawn i ni ac, ar ddiwedd y dydd, mae tenant y Cyngor sy'n dioddef oherwydd y perfformiad gwael hwn.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Elsmore*

Rwyt ti'n hollol iawn, Cynghorydd Woodman, ac fel y gwyddom ni, o ran sgyrsiau a chyfathrebu ac wrth gwrs yn y siambr, gall y materion hyn achosi pryderon difrifol i denantiaid unigol. Felly, rwy'n hollol fodlon ar ymrwymo i adrodd ar hyn bob hanner blwyddyn.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Andrew Graham*

A fydd y Cyngor yn ymrwymo i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol sydd angen ei wneud i ddatrys y problemau llifogydd cyson ar gaeau pêl-droed Draenen Pen-y-graig ar Glenmount Way, sy'n golygu nad yw'r caeau'n addas ar gyfer gemau pêl-droed na defnyddiau hamdden eraill?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Bradbury*

Rydym wedi trafod gyda chynrychiolwyr o'r clwb, Thornhill FC, mewn perthynas â materion draenio'r safle. Rydym wedi comisiynu asesiad gan arbenigwr cae chwaraeon er mwyn adnabod datrysiadau i fynd ar ôl y problemau cyfredol a fydd yn parhau i weithio gyda'r clwb. Ac rwy'n gwybod bod Cynghorwyr lleol wedi bod ynghlwm wrth sgyrsiau gyda Swyddogion ar y mater hwn.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Andrew Graham*

Mae preswylwyr Draenen Pen-y-graig yn talu rhai o gyfraddau'r Dreth Gyngor uchaf yn y ddinas. O ystyried hyn, a fyddai'r Aelod Cabinet yn cytuno gyda fi nad yw preswylwyr Draenen Pen-y-graig yn derbyn rhan gyfiawn o wariant y Cyngor.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Bradbury*

Na, dim o gwbl. Rwy'n meddwl bod y cwestiwn hwn am gynnig cyfleusterau chwaraeon gwell ar gyfer eich cymuned, ac rwy'n fodlon ar eistedd gydag Aelodau o unrhyw blaid o unrhyw ward i drafod y mater penodol.

Fodd bynnag, ar y pwynt ehangach, na. Nid wyf yn credu bod pobl Draenen Pen-y-graig yn ei chael hi'n anoddach na phobl Caerau a Threlái nac unrhyw le arall.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Hunt*

Mae hyn yn rhywbeth sy'n dod i fyny'n aml mewn cyfarfodydd PACT, ble mae llawer o faterion yn ymwneud â Glenmount Way yn cael eu trafod, gan gynnwys y maes chwarae, a'r parcio yno, gan gynnwys y caeau pêl-droed hefyd.

Rhywbeth sy'n anodd i ni, yn enwedig yng ngogledd Caerdydd, yw rhywbeth a rennir ledled y ddinas sef llawer o law a llifogydd. Mae hyn yn peri problem i'r caeau pêl-droed. Hoffwn gael sicrwydd, os yw'n bosib, gan yr Aelod Cabinet bod y sefyllfa o ran Draenen Pen-y-graig yn cael ei chymryd o ddifri, a bod Glenmount Way yn cael ei ystyried o ddifri a pha ddatrysiadau sy'n bosib ar ei gyfer.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Bradbury*

Ar eich pwynt olaf, rwy'n fodlon ar weithio gydag Aelodau Lleol i ddod o hyd i ddatrysiad ar y mater hon. Mae'n broblem, fel ddywedest ti, ledled y ddinas. Ac rydym wedi colli llawer iawn o gemau pêl-droed dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf oherwydd tywydd gwael ledled y ddinas. Rwy'n siŵr bod Park Trelai yn cael ei effeithio hefyd, yn yr un modd â Draenen Pen-y-graig.

Gallaf ymrwymo i gwrdd ag Aelodau Lleol a'r Swyddog Datblygu Chwaraeon i weld beth allwn ni ei wneud. Ond rwy'n siŵr bod y Cynghorydd Jones wedi gofyn am gyfleusterau 4G yn ei ward, mae gennym 4G yn dod yn ein ward ni ym mhobman. Dyna yw'r dyfodol. Rhaid dod o hyd i'r arian i wneud hynny. A 'dw i'n meddwl bod angen i ni drafod ffyrdd y gallwn ni wneud yn siŵr bod gennym ddyfodol cynaliadwy ar gyfer ein clybiau pêl-droed a pharciau bwrdeistrefol. Fel arall, rydym yn mynd i barhau i gael y broblem hon pob blwyddyn.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Mitchell*

All yr Aelod Cabinet gadarnhau na ystyriwyd cau Canolfan Hamdden Trem y Môr?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Bradbury*

Fel y soniais yn glir yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, a llawer o weithiau yn y cyfryngau cymdeithasol ac yn gyhoeddus ar gerrig drysau, ac fel ‘dw i’n hapus i ddweud eto, nid yw'r Cabinet erioed wedi ystyried cau Canolfan Hamdden Trem Y Môr.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Mitchell*

Ti newydd gadarnhau na gafodd hyn ei ystyried erioed. Nid yw erioed wedi cael ei drafod yn y Cabinet. Nid yw erioed wedi'i gynnig mewn papurau. Nid yw wedi’i ystyried o gwbl erioed.

Felly allwch chi egluro pam bod hynny wedi ymddangos mewn cyhoeddiadau yn ystod yr is-etholiadau diweddar a beth wnaethoch chi i wrth-ddweud hyn? Nid yw hyn wedi digwydd yn y ward hwn yn unig - yn fy ward i, mae fy nghydweithwyr ward yn honni eu bod wedi achub Cantonian, Peter Lea, St Mary Immaculate - ysgolion nad oeddynt erioed dan fygythiad o gael eu cau. Mae pethau fel hyn yn achosi materion oherwydd, os rydych yn anfon rhieni i’r ysgol honno, mae’n achosi problemau i’r ysgolion sy’n gwneud yr honiadau ffug hynny. Yn yr un modd, ydych chi’n cytuno bod staff Trem y Môr a phreswylwyr yn poeni heb fod angen oherwydd y datganiad camarweiniol ac anghywir?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Bradbury*

Ni allaf egluro pam. 'Dw i'n meddwl y dylai'r parti a oedd yn rhannu'r wybodaeth honno egluro pam eu bod nhw'n gwneud hynny.

Yn anffodus, cafodd ei roi mewn llawer o dai yn Grangetown. Roedd llawer o aelodau staff Trem y Môr yn poeni’n ofnadwy amdano. Yn wahanol i’r hyn a gyhoeddwyd, mae Trem y Môr wedi derbyn buddsoddiad. Mae’n parhau y tu mewn i reolaeth y Cyngor oherwydd mae’n gwneud synnwyr ariannol a strategol i wneud hynny, oherwydd y ffaith bod ffordd sy’n arwain at y ganolfan ddŵr.

Dywedaf hyn: ‘Dw i’m yn meddwl mai bai’r Aelod a enillodd yr etholiad oedd hyn. ‘Dw i’n meddwl bod yr Arweinydd o bosibl wedi bod ynghlwm wrth y peth. A ‘dw i’n meddwl ei fod wedi gwneud araith dda gynnar a 'dw i'n falch o'i weld yn y siambr.

**Pwynt eglurhad personol:** *Y Cynghorydd Sir Mitchell*

Gwnaeth Aelod newydd y siambr gyflwyno araith dda iawn ac nid yw hyn yn ymwneud ag ef. Mae’n hollol ymwybodol o hynny. Ac rwy'n dymuno'n dda iddo. Ac rwy’n gobeithio ei fod yn dweud y gwir am ei fwriad i weithio gyda’r gweddill ohonom ni, ac felly rwy’n dy groesawu di i’r siambr.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Sanders*

A wneith yr Aelod Cabinet egluro manylion Ymgyrch Mistletoe eleni o ran ffrydiau ariannu a'r dyddiad lansio?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir De'Ath*

Fel y gwyddoch, mae Ymgyrch Mistletoe yn becyn blynyddol o ymyriadau aml-asiantaethol ledled canol y ddinas i ymdopi â'r galw a nifer yr ymwelwyr cynyddol i Gaerdydd dros gyfnod y Nadolig. Mae hynny'n ymestyn o gyfleusterau tŷ bach, cymorth ychwanegol i'n marsialiaid tacsis, i gau ffyrdd. Maen nhw'n fuddiol iawn i breswylwyr, busnesau ac ymwelwyr.

Rydym ni, Heddlu De Cymru ac Ardal Fusnes Caerdydd (am y tro cyntaf eleni) yn ariannu hyn. Ac mae'n un o'r mentrau cyntaf erioed sydd wedi'i ariannu fel hyn ac wrth gwrs mae'n lansio mewn wythnos neu ddau.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Sanders*

Fel 'dw i'n siŵr y byddwch chi'n gallu dychmygu, rwy'n falch o weld Ymgyrch Mistletoe yn digwydd eto ac yn cydnabod y gwaith partneriaeth sy'n digwydd i gadw'r ddinas yn ddiogel, yn lân ac yn gyffredinol yn lle da i dreulio amser hamdden ynddi.

Fodd bynnag, mae'n bryder; fel y clywsom yn yr adroddiad Tasg a Gorffen CASSC am y pwysau ar adnoddau ar gyfer mentrau partneriaeth o'r fath. Felly, a fyddai'n iawn i mi ofyn i chi ymrwymo, fel y nodwyd yn un o argymhellion yr adroddiad, i adnabod cyllid cynaliadwy fel bod modd cynnal Ymgyrch Mistletoe pob blwyddyn heb boeni am y peth?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir De'Ath*

Rwyf wedi ymrwymo'n llawn i wneud popeth hyd fy ngallu i sicrhau bod Ymgyrch Mistletoe yn dal i fod yn llwyddiant. Rwy'n credu gyda chyllid ychwanegol gan yr AGB, mae'r dyfodol yn ddiogel am llawer o flynyddoedd.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Boyle*

Yn y misoedd oer a gaeafol sydd i ddod, a fydd y Cyngor yn adolygu'r posibilrwydd o gritio'r Taith Taf er diogelwch beiciwr?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Patel*

Bydd, ac rydym yn mynd i ymchwilio i wneud hynny fel rhan o'n hymrwymiad i hyrwyddo beicio yn y ddinas.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Boyle*

Grêt. Allwch chi roi ychydig mwy o fanylion?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Patel*

Yn amlwg, mae rhwystrau corfforol o ran mynediad a natur y llwybr, sy'n eitha' cul. Ond rydym yn ymchwilio i ddefnyddio cerbydau llai, megis certiau neu feiciau quad er mwyn gallu rhoi'r deunydd i lawr ar y Taith Taf.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir McKerlich*

Gwnaeth un o'm etholwyr gysylltu â mi'n flin iawn gan ei fod wedi syrthio oddi ar ei feic ar y Taith Taf oherwydd dail llithrig. Gofynnodd pam na fyddai Cyngor Caerdydd yn clirio'r dail oddi ar Daith Taf gan mai polisi Cyngor Caerdydd yw clirio'r dail oddi ar Taith Taf.

Felly, gofynnais i'r adran Rheoli Gwastraff a chefais ateb mai'r rheswm oedd nad oedd ganddyn nhw unrhyw offer a oedd yn gallu gwneud y gwaith. Yna, dywedais hyn wrth yr etholwr a ddywedodd "wel, roedd ysgubwr yn clirio'r llwybr y llynedd a'r flwyddyn gynt. Onid oes ysgubwyr ffordd mwyach?" Beth ddylwn i ddweud wrtho nawr?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Patel*

Yn amlwg, mae hyn yn rhywbeth ar y cyd rhyngof fi a'm cydweithwyr yn yr adran Briffyrdd ac wrth gwrs gyda'r aelod Cabinet, Bob. Felly, byddaf yn sicr yn trafod hyn gydag ef.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Hudson*

Allwch chi egluro pam fod Cyngor Caerdydd wedi gwario'r mwyaf allan o bob cyngor yng Nghymru ar gardiau credyd (£5.4m) rhwng 2015/16 o'i gymharu â £779k a gafodd ei wario pedair blynedd ynghynt?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Hinchey*

Yn gyntaf, hoffwn eich cywiro. Mae'r rhain yn gardiau talu llywodraethol, nid cardiau credyd. Cânt eu defnyddio'n aml ar eitemau gwerth isel, ac ni delir unrhyw log arnynt. Mae'r rhain yn cynrychioli gwerth da i'n trethdalwyr.

Mae'r Cyngor yn derbyn bil misol, sy'n cael ei archwilio'n fanwl yn fewnol a gwneir ad-daliadau yn fisol gan bob gwasanaeth sy'n eu defnyddio.

Mae'r defnydd cynyddol gan y Cyngor dros y blynyddoedd diweddar yn sgil newid polisi sydd â'r nod o stopio eitemau gwerth isel rhag cael eu craffu drwy rwydwaith logisteg mewnol, sy'n ffordd fwy drud o brynu cynnyrch a gwasanaethau gwerth isel. Maent hefyd yn helpu i gynyddu effeithlonrwydd ein gweithlu drwy ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'n cwsmeriaid, yn hytrach na gweithredu o ddepo.

Mae'r arfer yn unol â phob awdurdod lleol arall yng Nghymru. Ac rwyf wedi darllen y *Taxpayers Alliance*, 'dw i'n cymryd mai at hwnnw ti'n gyfeirio? Hefyd, nodaf bod yr adroddiad Trethdalwyr diweddar ar y mater hwn yn dangos bod Cyngor Sir Fynwy wedi cael cynnydd 1072% o ran taliadau ar eu cardiau gwario, sef dwbl y cynnydd yng Nghaerdydd yn hanner yr amser.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Hudson*

Hoffwn gael manylion am yr eitemau, megis dros £200 ar unwaith dan benawdau penodol megis tanwydd, teithio, bwyd ac ati. Oherwydd nid ydw i'n siŵr sut mae'r cerdyn credyd yn cael ei ddefnyddio gyda'r rheiny. Dydw i ddim yn deall y cynnydd cyflym.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Hinchey*

Dim cerdyn credyd yw hwn; mae'n gerdyn talu llywodraeth sy'n cael ei ddefnyddio'n aml. Hoffwn roi enghraifft i chi: Mae'r Gwasanaeth Cynnal a Chadw Cymunedol yn ei ddefnyddio i gaffael cynnyrch sy'n mynd yn uniongyrchol i berchnogion tai neu'n uniongyrchol iddyn nhw i wneud y gwaith.

Yn flaenorol, efallai y byddwch yn cofio bod depos cynnal a chadw tai ble roedd yn rhaid i ni gynnal sefydliad logisteg ac archebu pethau a talu amdanynt. Ond nid ydym yn gwneud hynny mwyach. Mae pob sefydliad mawr yn caffael fel hyn a phob awdurdod. Os rydych yn darllen yr adroddiad Taxpayers Alliance yn fwy trylwyr, fe welwch chi bod yr holl sefydliadau'n gwneud hyn yn yr un ffordd.

Ac os rydych yn edrych ar enghreifftiau yn Sir Benfro, er enghraifft, sydd wedi caffael £26.4m ar eu cardiau talu llywodraeth. Maen nhw'n awdurdod llai hefyd. Caerdydd yw'r sefydliad mwyaf yng Nghymru a'r cyngor mwyaf, ac rydyn ni'n bedwerydd ar y rhestr honno. Rydym tu ôl i Abertawe, a thu ôl i awdurdodau eraill.

Yn hytrach na rhoi llawer o waith i Swyddogion am rhywbeth allai fod yn syml iawn, rwy'n fodlon iawn eistedd i lawr gyda [dim modd clywed]. Ond, cardiau credyd ydyn nhw; maent yn gardiau talu ble mae'r cynnyrch - efallai tap, neu eitem drydanol - yn mynd yn uniongyrchol i'r cwsmer, ac mae hynny'n ffordd dda iawn o weithio.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Richard Cook*

Pryd fydd y strategaeth feicio yn barod ar gyfer ymgynghori gyda phartïon â diddordeb ac aelodau'r cyhoedd?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Patel*

Mae disgwyl i'r ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y strategaeth feicio ddrafft ddechrau yn y flwyddyn newydd ar ôl iddo gael ei hystyried gan Gabinet y Cyngor.

Mae ymgysylltu gyda grwpiau rhanddeiliaid a'r cyhoedd wedi bod yn rhan hanfodol o'r broses o gynhyrchu strategaeth feicio newydd ar gyfer y ddinas.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Richard Cook*

Byddwn yn ymgynghori ar y strategaeth feicio yn y flwyddyn newydd. Mae hynny'n golygu y bydd y cabinet cyfredol wedi bod yn trafod strategaeth feicio ers dros dwy flynedd. Pam ei bod hi'n cymryd mor hir i gynhyrchu strategaeth? Oherwydd mae beicwyr y ddinas yn dod i'r casgliad nad yw'r Cabinet na'r weinyddiaeth yn cymryd

beicio o ddifrif, i'r graddau hynny nad oes modd i ni gynhyrchu strategaeth mewn dros dwy flynedd. Sut rydyn ni am wneud unrhyw beth am feicio yn y ddinas hon a sut rydyn ni am gael rhaniad dull 50/50?

Dim ond dweud beth rydych chi am ei wneud mae’r strategaeth. Mae’n rhaid i chi wneud hynny wedyn. O’m safbwynt i, rydyn ni wedi gwastraffu pum mlynedd.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Patel*

Nid wyf yn ystyried yr amser yn amser sydd wedi’i wastraffu o gwbl. Gallaf fynd drwy'r strategaeth yn fanwl ac mae'n siŵr na châf yr amser cywir i wneud hynny, ond mae'r ymgysylltu hyd yma wedi cynnwys gweithdai gyda rhanddeiliaid yn yr haf a'r hydref; ymgysylltu gyda disgyblion uwchradd yn eu hysgolion; ac ymgysylltu gydag aelodau'r cyhoedd ar Ddiwrnod di-Draffig; gweithdy ym mis Mehefin a Medi gyda rhanddeiliaid a hwyluswyd gan rai o benseiri gorau’r byd, sef Ghel Architects; gweithdai allanol a fynychodd cynrychiolwyr y byd beicio, partneriaid y sector cyhoeddus, sefydliadau addysg uwch, manwerthwyr a busnesau.

Gwnaeth yr ymgysylltu hyn nodi’r prif themâu a fyddwn yn ceisio'u datrys yn y strategaeth feicio. Cynhaliwyd ymgysylltu gydag ysgolion uwchradd gan Swyddogion y Cyngor ar y cyd â Sustrans yn rhan o’r rhaglen Teithio Actif a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu gyda’r cyhoedd ar stondin ym Mhlas-y-Parc yn ystod Diwrnod di-Draffig. Bydd ymgynghoriad llawn â’r cyhoedd yn cynnwys holiaduron ar-lein, digwyddiadau cyhoeddus, gweithdai rhanddeiliad, a gweithgareddau pellach yn Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Plasmawr.

Hefyd, mae'n bwysig nodi ein bod newydd dderbyn briff a chyflwyniad gan Ghel Architects yn Cabinet yn ddiweddar iawn dros y dyddiau diwethaf. Felly, yn sicr nid oes unrhyw beth yn cael ei wastraffu. Rydyn ni’n gwneud pethau’n iawn – dyna’r gwahaniaeth. Nid yw pethau’n digwydd dros nos. Mae’n rhaid i'r pethau hyn gael eu gwneud yn iawn. Os rydyn ni am ddechrau gwneud pethau drwy siarad yn unig bydd pethau’n mynd o ddrwg i waeth. Beth am wneud pethau’n iawn, a’i gyflawni’n iawn.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Clark*

Allwch chi nodi faint o bobl sydd wedi cofrestru ar gyfer y:

(i) gwasanaeth neges destun taclus ar 60163 a beth yw'r costau sydd ynghlwm wrth sefydlu'r cynllun ac ynghlwm wrth redeg y cynllun i'r Cyngor;
(ii) gwasanaeth Binfo Caerdydd a beth yw'r costau sydd ynghlwm wrth sefydlu'r cynllun ac ynghlwm wrth redeg y cynllun i'r Cyngor;

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Hyd heddiw, mae 6,700 o bobl wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth Testun Taclus, 5,200 ar gyfer Binfo Caerdydd a 3,350 ar gyfer y gwasanaeth atgoffa dros e-bost newydd.

Mae cyfanswm o 15,303 o bobl wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaethau hyn ac mae'r ffigwr yn tyfu pob mis.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Clark*

Nid ydych wedi ateb y cwestiwn: Gofynnais beth oedd y costau o sefydlu a rhedeg y gwasanaethau hyn pob blwyddyn. Allwch chi ateb hynny, plîs?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Derbyshire*

Dan yr hen drefn, roeddem yn talu £43,000 y flwyddyn. Dan y drefn newydd, mae'n costio £6,000 i sefydlu'r gwasanaeth a £10,000 am y gweddill.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Graham Thomas*

Mae gan y Cyngor siarter gyda'r holl gynghorau cymuned gweithgar. Rwy'n mynychu dau o'r rhain a phob mis maent yn cwyno'n ofnadwy am y diffyg cyfathrebu gan y Cyngor, sy'n golygu bod y Siarter Cymunedol yn ddibwys. Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn sicrhau bod ein Swyddogion yn cael gwybodaeth lawn am y Siarter?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir De'Ath*

Fel y gwyddoch, rwy'n ystyried cynghorau cymuned yn bwysig iawn. Maent yn gwneud gwaith da iawn yn ein cymunedau. Rwy'n awyddus i glywed unrhyw faterion y maen nhw'n eu cael bob tro. Nid ydyn nhw wedi dod ataf fi'n bersonol, ond rwy'n cael y teimlad bod y materion yr ydych chi'n cyfeirio atynt yn ymwneud â chynllunio, SIL, cyllid Adran 106 - wnaethoch chi ofyn cwestiwn ar hyn ychydig fisoedd yn ôl.

Os oes unrhyw beth y galla' i helpu gyda, neu'r Cynghorydd Patel, byddem yn fodlon ar helpu. Neu gallwn geisio gweld os allwn ddatrys y materion y mae'r Cynghorau'n cael profiad ohonynt.

**Cwestiwn ategol** *Y Cynghorydd Sir Graham Thomas*

'Dw i'n meddwl bod y cwestiwn wirioneddol yn ymwneud â chyfathrebu cyffredinol rhwng y cynghorau cymuned a'r cyngor sir, neu'r diffyg ohono. A gofynnais y cwestiwn allan o barch at y Cynghorau Cymuned a dweud y gwir, ac rwy'n gobeithio bod gennych chi barch tuag atynt hefyd.

Ar adeg pan mae'r Cyngor yn chwilio am ddulliau amgen, dylem fanteisio arnyn nhw a'r holl waith caled y maen nhw'n ei wneud yn wirfoddol. Mae Swyddog Monitro newydd yma hefo ni heddiw ac, er enghraifft, mae'n bwysig nodi fy mod wedi cael gwybod am Reolwr Gweithredol oedd yn anymwybodol am y siarter. Anymwybodol ohoni.

Nid ydw i'n barnu ein Rheolwyr Gweithredol am eiliad ond pa sicrwydd allwch chi roi i mi na fyddaf yn cael yr un ymateb y tro nesaf y byddaf yn gofyn wrth un ohonynt?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir De'Ath*

Mae'n ddrwg iawn gen i glywed bod hyn wedi digwydd. Fel y gwyddoch, mae disgwyl i'r siarter gael ei hadnewyddu, gobeithio nid yn rhy hwyr yn y dyfodol. A phan mae hynny'n dechrau, mae gennym ddulliau amrywiol o rannu gwybodaeth drwy Swyddogion, yn electroneg, a chaiff ei rhannu'n aml mewn cyfarfodydd briffio'r tîm. Felly, yn sicr, mae Swyddogion y sefydliad hwn yn ymwybodol o'r siarter, o gynghorau cymuned, ac o'r hyn y mae disgwyl iddyn nhw ei wneud a sut i ymddwyn gyda nhw.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorydd Sir Richard Cook*

Mae'r Tîm Ymyrryd Wallich Rough Sleepers yn adrodd am gynnydd o 29% yn chwarter cyntaf 2016 o'i gymharu â'r drydedd chwarter o 2015. Bellach mae 25-36 o bobl yn cysgu ar y stryd yng Nghaerdydd pob nos. Beth yw'r rhesymau dros y cynnydd a beth mae'r Cyngor yn ei wneud i daclo'r broblem gynyddol hon?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Elsmore*

Fel y gwyddoch, mae'r mater hwn yn agos iawn at fy nghalon.

Mae nifer y bobl sydd wedi bod yn cysgu ar y stryd wedi bod yn dueddiad cynyddol ers Ebrill 2014, pan roedd budd-daliadau wedi'u capio i rai o ffoaduriaid Ardal Economaidd Ewrop. Mae newidiadau eraill a all waethygu'r sefyllfa yn cynnwys: diwygio lles, capio budd-daliadau, colli cyflogaeth a pherthynas yn torri lawr yn y teulu.

Mae'r Gwasanaeth Digartrefedd yn gweithio'n ymarferol iawn gyda phartneriaid i fynd ar ôl problemau cymhleth i sicrhau bod unigolion yn cael eu cefnogi.

Fis Hydref, cafodd 10 o bobl eu hail-gartrefu. Yn sicr, yn y 12 mis diwethaf, mae'r tîm ail-gysylltu wedi cefnogi 52 o bobl i ddychwelyd yn ddiogel at deulu a ffrindiau, un ai tramor neu at eu hawdurdod lleol eu hun yn y DU.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Richard Cook*

Hoffwn longyfarch staff y Cyngor a chithau am bopeth yr ydych yn ei wneud i leddfu'r tueddiad cynyddol hyn ledled y DU.

Rwy'n meddwl bod rhaid i Gynghorwyr yn y siambr sy'n perthyn i lywodraeth y DU presennol gymryd cyfrifoldeb llawn am y cynnydd hwn o ran lefelau digartrefedd. Mae'n flin gen i nad yw rhai Cynghorwyr o bosib yn cytuno gyda pholisi cyfredol y DU, ond a fyddech yn cytuno bod y polisi wedi golygu bod mwy o bobl digartref yn ei chael hi'n anodd i fyw mewn tai ac felly yn gorfod byw ar y stryd? Ac rydym yn gweld hyn yn digwydd pob dydd yn ein dinas wrth i ni feicio, cerdded a theithio o Neuadd y Sir i'n cartrefi.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Elsmore*

Rwy’n cytuno cant y cant. Os rydym yn cymharu ein hunain yng nghyd-destun Caerdydd, Cymru a'r sefyllfa yn Lloegr, mae digartrefedd wedi cynyddu 54% ers 2010 yn Lloegr, a 79% yn Llundain.

Rwy'n falch iawn o allu mynd â'r llongyfarchiadau hynny yn ôl i Swyddogion oherwydd rwy'n credu bod ein gwaith ni yn y maes hwn yn enghreifftiol. Mae Llywodraeth Cymru yn ein hystyried ni fel enghraifft o arfer gorau. Ac, wrth gwrs, mae pobl yn dod o mor bell ag Awstralia y llynedd yn falch iawn o’r gwaith yr ydyn ni’n ei wneud. Mae’n rhaid i ni wneud mwy ohono ond, o ran y nod, rwy’n meddwl mai’r gôl yw i ddiddymu cysgu ar y stryd cyn belled ag sy’n bosibl.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir McKerlich*

Cynghorydd Elsmore, ydych chi’n argymell i'r Cynghorydd Cook os gall ei feic fynd ag ef dramor, ydych chi’n argymell y dylai ef deithio ac edrych i weld beth sy’n digwydd mewn dinasoedd eraill? Rwyf wedi dod yn ôl yn ddiweddar ac wedi gweld llawer o bobl yn cysgu ar y stryd yn Cologne, Amsterdam a Heidelberg. Y llynedd, gwelais gannoedd o bobl yn cysgu ym Maes Awyr Charles De Gaulle. Ac mae honno’n wlad sosialaidd. Os rydych yn mynd i wledydd sydd hyd yn oed yn fwy sosialaidd megis Rwsia a Tsieina, byddwch yn dod o hyd i filiynau o bobl yn cysgu ar y stryd. Nid yw hyn yn broblem a achoswyd gan lywodraeth Ceidwadol, fodd bynnag, efallai yr hoffech chi honni ei bod hi.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Elsmore*

Mae’n fater anodd i ymateb i gwestiynau a sylwadau sydd wedi'u cyfeirio at y Cynghorydd Cook. Rwy’n canolbwyntio ar broblemau a materion Caerdydd ac yn ceisio, Cynghorydd McKerlich, i ddatrys problemau difrifol iawn sydd wedi'u hen sefydlu. Ac rwy’n meddwl bod rhaid i’ch llywodraeth chi gymryd rhan o’r bai.

**Cwestiwn:** *Y Cynghorwyr Sir Chaundy*

A oes "rhestr” o adeiladau ysgol sy’n cael eu blaenoriaethu gan feini prawf o amodau penodol neu “addasrwydd fel adeiladau ysgol” ac a yw’r rheiny wedi’u hystyried yn y stoc adeiladau ysgolion cynradd gwaethaf ar y "rhestr"?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Merry*

Nid oes rhestr yn y fformat yr ydych chi’n gofyn amdano.

Mae gan y Cyngor wybodaeth ynghylch cyflwr ac addasrwydd pob adeilad yr ysgol. Mae’r wybodaeth honno yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ac mae adolygiadau pellach yn cael eu comisiynu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mwy manwl yr hoffech eu gofyn y tu allan i'r siambr…

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Chaundy*

Ydych chi'n gallu cadarnhau eich bod wedi cwrdd â'r Esgobaeth Anglicanaidd a Chatholigaidd i bennu pa ysgolion sy'n Ysgolion yr 21ain Ganrif? Oherwydd mae rhai ohonynt sydd mewn angen gwirioneddol.

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Merry*

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Merry*

Ers 2012 rydym wedi bod yn gweithio ar wella addysg yng Nghaerdydd drwy:

- Adeiladu ar bartneriaethau rhwng ysgolion, busnesau, cymunedau a sefydliadau, gan gynnwys annog aelodau o'r cymunedau hynny i gymryd rhan ar gyrff llywodraethu ysgolion
- Galluogi ysgolion i arwain ar welliant ledled y system a datblygu system ysgolion "hunan-wella"
- Gwella rheoli data a pherfformiad a defnyddio data'n dryloyw
- Gwella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau
- Cau'r bwlch
- Ac wrth gwrs gweithio gyda'r consortiwm

Drwy adeiladu hyn rydym wedi datblygu ein strategaeth Caerdydd 2020 o ran addysg gyda'n nod o gael pob ysgol yng Nghaerdydd yn "ysgol wych".  Dyma'r prif dargedau:

- Canlyniadau ardderchog i'r holl ddysgwyr
- Gweithlu o safon
- Amgylcheddau dysgu'r 21ain ganrif
- System ysgolion hunan-wella
- Ysgolion a Chaerdydd mewn partneriaeth

Ar gyfer yr Aelodau hynny sydd heb gael cyfle i ddarllen y ddogfen, awgrymaf yn gryf eich bod chi'n gwneud hynny. Mae addysg yn fater hanfodol bwysig i'n hysgolion.

Yn amlwg, hefyd, rydym yn gweithio gyda'n Bwrdd Datblygu Addysg, sy'n goruchwylio cyflawniad Caerdydd 2020, gan gynnig cyfeiriad strategol, cymorth ac yn herio'r holl bartneriaid.

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Stubbs*

Rydym oll yn ymwybodol pa mor bwysig ydyw bod gennym ni'r ysgolion gorau. Rwy'n falch iawn o fod yn llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Willows, un o'r ysgolion sy'n gwella gyflymaf yng Nghymru. Ond o ran y mesurau yr ydych chi newydd eu trafod – allwch chi egluro pa effaith maen nhw wedi'i gael a faint mae'r ysgolion wedi gwella ers Mai 2012 er enghraifft?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Merry*

Yn sicr, nid wyf yn awgrymu ein bod wedi datrys yr holl broblemau yn ein system addysg, ond er mwyn cymharu sut rydyn ni wedi perfformio yn erbyn gweddill Cymru dros y cyfnod hwnnw, yn 2012/13 ar y rhan fwyaf o feini prawf, roeddem yn is na chyfartaledd Cymru. Ar hyn o bryd, rydym yn uwch na chyfartaledd Cymru ar y rhan fwyaf o'r meini prawf hyn.

Felly, os rydym yn ystyried dangosydd canlyniadau'r cyfnod sylfaen, ar ddiwedd blwyddyn 2, nid yn unig ydyn ni wedi gwella perfformiad 8%, rydym hefyd wedi mynd o sgôr o 18 - hynny yw, yn yr 18ed safle yng Nghymru - i'r seithfed.

O ran y dangosydd pwnc craidd, gwelwyd gwelliant cyffelyb o saith y cant. Rydym wedi mynd o fod yn is na chyfartaledd Cymru i uwchben cyfartaledd Cymru ac i fyny 6 lle. Roeddem yn y 17ed safle. Yn amlwg nid yw 11ed yn ddigon da i Gaerdydd, ond roeddem yn yr 17ed safle o'r blaen...

**Cwestiwn ategol:** *Y Cynghorydd Sir Boyle*

Allwch chi roi eich dehongliad chi o’r effaith gafodd y premiwm disgyblion, neu grant amddifadedd disgyblion, ar gau'r bwlch?

**Ymateb:** *Y Cynghorydd Sir Merry*

Rwy’n gefnogol iawn o’r premiwm disgyblion. Unrhyw beth sy’n cydnabod y ffaith bod rhai o’r ysgolion yn ein dinas yn dioddef o faterion penodol oherwydd tlodi ac amddifadedd eu plant… Rwy’n mynd i rai ysgolion cynradd ble bydd y pennaeth yn cadw powdwr golchi a phethau'r tŷ o dan y ddesg er mwyn ceisio helpu teuluoedd anghenus.

Mae rhai Aelodau wedi cwyno am wahaniaethau o ran y cyllid fesul-disgybl. Yn benodol, rydym angen i’r cyllid hwnnw fynd ar ôl tlodi yn cartref a lleihau’r bwlch a rhoi’r cyfle gorau posibl i blant Caerdydd.

114 : MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

115 : PENODI I GYRFF LLYWODRAETHWYR DROS DRO

**Roedd gofyn i’r Cyngor gymeradwyo’r argymhellion ar gyfer penodi Rhiant-Lywodraethwyr i Ysgol Uwchradd Cymunedol Gorllewin Caerdydd.**

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn

(1) cymeradwyo penodiad Ms Joanne Howell i’r swydd staff-lywodraethwr nad ydynt yn dysgu gan bod ei sgiliau a’i phrofiad yr un peth â’r hyn sy’n ofynnol gan y corff llywodraethu dros dro;

(2) gofyn bod y corff llywodraethu dros dro yn ystyried cyd-ethol Peter Hunt i un neu fwy o'r is-bwyllgorau i fanteisio ar ei sgiliau a'i brofiad.

116 : PENODI LLYWODRAETHWYR YSGOL YR AWDURDOD LLEOL

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol 8 Tachwedd 2016.

PENDERFYNWYD –

1. y dylid cymeradwyo'r penodiadau canlynol i swyddi gwag presennol

| **Ysgol** | **Ward** | **Dechrau'r Swydd** | **Ceisiadau a dderbyniwyd** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Baden Powell 2 swydd wag | Sblot | 17/09/2016 17/09/2016 | |
| Ysgol Gynradd Bryn Hafod | Llanrhymni | 19/05/2016 | |
| Ysgol Gynradd Creigiau | Creigiau | 08/10/2016 | |
| Ysgol Gynradd Danescourt 2 swydd wag | Danescourt | 01/09/2016 01/09/2016 | |
| Canolfan Blant Trelái a Chaerau | Trelái | 14/07/2016 | |
| Ysgol Gynradd Glan yr Afon | Llanrhymni | 13/10/2015 | Les Maxim |
| Ysgol Feithrin Grangetown | Grangetown | 02/09/2016 | |
| Ysgol Gynradd Grangetown | Grangetown | 16/09/2016 | |
| Ysgol Gynradd Hawthorn 2 swydd wag | Ystum Taf | 10/05/2016 26/09/2016 | Steven Chadwell Paul Rock |
| Ysgol Gynradd Marlborough | Pen-y-lan | 10/05/2016 | Rodney Berman |
| Ysgol Gynradd Meadowlane | Trowbridge | 02/09/2016 | Dawn Mitchell-Williams |
| Ysgol Gynradd Moorland | Sblot | 26/09/2016 | |
| Ysgol Gynradd Oakfield | Trowbridge | 04/03/2015 | |
| Ysgol Gynradd Pencaerau | Caerau | 01/09/2010 | |
| Ysgol Gynradd | Y Tyllgoed | 27/06/2016 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pentre-baen | | | |
| Ysgol Gynradd Peter Lea | Y Tyllgoed | 27/06/2016 | |
| Ysgol Gynradd Rhiwbeina | Rhiwbeina | 18/10/2016 | |
| Ysgol Arbennig Riverbank<br><br>2 swydd wag | Caerau | 13/06/2016<br>29/06/2016 | |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ioan | Trowbridge | 30/01/2013 | |
| Ysgol Gynradd Gatholig St Patrick | Grangetown | 16/09/2016 | |
| Ysgol The Hollies | Pentwyn | 26/09/2016 | |
| Ysgol Gynradd Trelái | Caerau | 13/09/2016 | |
| Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig | Llanisien | 22/06/2015 | Jackie Jones |
| Ysgol Gynradd Trowbridge | Trowbridge | 11/02/2016 | Mike Thomas |
| Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd | Yr Eglwys Newydd | 11/09/2016 | Nicola Davies |
| Ysgol Gynradd Yr Eglwys Newydd<br><br>3 swydd wag | Yr Eglwys Newydd | 01/09/2016<br>25/10/2016<br>25/10/2016 | Sarah Lewis<br>Mike Phillips<br>Nicola Davies |
| Ysgol Gynradd Windsor Clive | Trelái | 23/03/2016 | |
| Ysgol Uwchradd Woodlands<br>2 swydd wag | Caerau | 10/12/2015<br>29/09/2016 | |
| Ysgol Glan Ceubal | Ystum Taf | 01/10/2016 | |
| Ysgol Glan Morfa | Sblot | 29/01/2014 | Anne Hughes |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr | Y Tyllgoed | 25/09/2006 | Gareth Owens |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern<br>2 swydd wag | Pen-y-lan | 27/01/2016<br>27/09/2016 | Nick Speed<br>Gaynor Williams |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Coed-y-Gof | Y Tyllgoed | 22/10/2015 | |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd<br>2 swydd wag | Yr Eglwys Newydd | 21/11/2015<br>04/10/2016 | |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf | Ystum Taf | 25/10/2016 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Mynydd Bychan | Gabalfa | 16/12/2015 | Rhys Taylor |
| Ysgol Pen y Pil | Trowbridge | 11/09/2013 | Michael Jones |
| Ysgol Pen y Groes 2 swydd wag | Pentwyn | 01/09/2012 28/09/2016 | Ailsa Newton |
| Ysgol Pencae | Llandaf | 01/09/2016 | |
| Ysgol y Berllan Deg | Pentwyn | 29/02/2016 | Rhodri Asby |

2. y dylid cymeradwyo'r penodiadau canlynol i swyddi gwag Awdurdod Lleol yn y dyfodol

| **Ysgol** | **Ward** | **Dechrau'r Swydd** | **Ceisiadau a dderbyniwyd** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Bryn Celyn | Pentwyn | 13/12/16 | Y Cynghorydd Keith Hyde |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | Treganna | 19/12/16 | |
| Ysgol Gynradd Herbert Thompson | Trelái | 20/01/17 | |
| Ysgol Gynradd Draenen Pen-y-graig | Llanisien | 01/02/17 | Lynne Schofield |
| Ysgol Gynradd Pontprennau | Pontprennau | 01/01/17 | |
| Ysgol Gymraeg Bro Eirwg | Llanrhymni | 01/02/17 | |
| Ysgol Gymraeg Treganna | Treganna | 01/02/17 | |

117 : CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL AC AELODAETH PWYLLGORAU

Derbyniodd y Cyngor adroddiad yn nodi'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol presennol a oedd hefyd yn nodi swyddi gwag Pwyllgorau. Rhoddwyd enwebiadau Grŵp Pleidiau i swyddi gwag ar Bwyllgorau ar y daflen ddiwygiadau.

PENDERFYNWYD –

1. nodi'r newid yng nghyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel y nodir yn yr adroddiad; a

2. cymeradwyo penodiad y Cynghorydd Keith Jones i'r swydd wag ar Bwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant.

118 : CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL AC AELODAETH PWYLLGORAU

Gofynnwyd i'r Cyngor gytuno i benodi cynrychiolwyr y Cyngor i Gyrff Allanol dan swyddogaethau Dewis Lleol yn unol ag enwebiadau wedi'u derbyn gan Grwpiau Plaid fel y nodir ar y daflen ddiwygiadau.

Nodwyd na gyflwynwyd unrhyw enwebiadau.

PENDERFYNWYD – Y byddai'r Grwpiau Plaid yn ystyried yr enwebiadau.

119 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

DATGANIAD DATBLYGU CYMUNEDOL, CWMNÏAU CYDWEITHREDOL A MENTRAU CYMDEITHASOL (Y CYNGHORYDD PETER BRADBURY)

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR McEVOY

Faint o ganolfannau chwarae'r Cyngor oedd yng Nghaerdydd ar 3 Mai 2012?

Faint oedd ar 3 Tachwedd 2016?

Ymateb

Ym mis Mai 2012, roedd 7 canolfan chwarae (Adamsdown, Trelái, Grangetown, Llanedern, Llanrhymni, Glan-yr-afon a Sblot).

Roedd yr un nifer o ganolfannau chwarae'n weithredol ar 3 Tachwedd 2016, gan gynnwys Canolfan Chwarae Llanedern a gafodd ei drawsffurfio'n ddiweddar i Grŵp Sgowts 1af Pentwyn.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR McEVOY

Allwch chi restru'r holl ganolfannau chwarae, canolfannau ieuenctid a chlybiau ieuenctid dan gyfrifoldeb Cyngor Caerdydd a oedd yn bresennol ar 3 Mai 2012 sydd dal i fodoli ar 3/11/16?

Ymateb

O ran canolfannau chwarae, hoffwn eich cyfeirio at yr ateb a roddwyd i'r Cwestiwn Ysgrifenedig blaenorol.

Fel ar 3 Tachwedd 2016, mae'r Cyngor yn cefnogi 20 o glybiau/projectau ieuenctid - un ai'n eu rheoli'n uniongyrchol neu drwy Grant Arloesedd Ieuenctid - a 6 canolfan ieuenctid fel a ganlyn:

Clybiau/Projectau Ieuenctid

Wedi sicrhau darpariaeth mynediad agored drwy ddarparwyr amgen drwy'r Grant Arloesedd Ieuenctid:

Caerau – Sefydliad Dinas Caerdydd
Cathays – Project Cymunedol ac Ieuenctid Cathays
Trelái – Sefydliad Dinas Caerdydd
Y Tyllgoed/Pentrebaen - ACE
Gabalfa – Ministry of Life
Grangetown - SRCDC a Chlybiau Merched a Bechgyn Cymru

Llanisien – Sefydliad Dinas Caerdydd
Llanrhymni – Full Circle
Plasnewydd – YMCA
Radur - YMCA
Glan-yr-afon - SRCDC a Chlybiau Merched a Bechgyn Cymru
Tredelerch – Sefydliad Dinas Caerdydd
Tremorfa – Ministry of Life
Yr Eglwys Newydd - YMCA
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg - Urdd

Cymorth ieuenctid cynhwysol sydd wedi'i dargedu y mae'r Cyngor yn ei ddarparu:

Darpariaeth gwaith ieuenctid cynhwysol - Trelái
Darpariaeth gwaith ieuenctid cynhwysol – Cathays
Darpariaeth gwaith ieuenctid cynhwysol – Gabalfa
Darpariaeth Gofalwyr Ifanc
Clwb Ieuenctid Byddar

Canolfannau Ieuenctid/Canolfannau Gweithgareddau Ieuenctid

Pafiliwn Butetown
Canolfan Ieuenctid Eastmoors
Grassroots
Canolfan Ieuenctid Gogledd Trelái
Powerhouse, Llanedern
Canolfan Ieuenctid Llaneirwg

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn darparu:

6 o dimau gwaith ieuenctid yn seiliedig ar strydoedd perthnasol/allgymorth;
Mentoriaid ieuenctid sydd ynghlwm wrth pob ysgol uwchradd yng Nghaerdydd; a
4 o Fentoriaid Ieuenctid sy'n gweithio gyda phobl ifanc ôl-16 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Mae Tîm Cyfranogiad Actif y Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda Chyngor Ieuenctid Caerdydd o ran cyfranogiad mewn cymunedau ledled y ddinas.

Ym mis Mai 2012, gwnaeth y Cyngor gefnogi 3 o glybiau ieuenctid dros dro un noson yr wythnos a 20 o ganolfannau ieuenctid yng Nghaerdydd. Er nad ydym yn darparu gwasanaeth yn uniongyrchol yn y lleoliadau isod, rydym yn parhau i gefnogi darpariaeth ieuenctid drwy Grantiau Arloesedd Ieuenctid ac yn gweithio gyda sefydliadau partner yn y rhan fwyaf o'r cymunedau hyn, fel y gwelwch o'r rhestr o glybiau/projectau ieuenctid presennol a nodir uchod.

Buzz Café, Grangetown
Creigiau (dros dro)
Dusty Forge, Trelái
Fitzalan – wedi cau a'i drosglwyddo i Warws Glan-yr-afon
Gwaelod-y-Garth (dros dro)

Canolfan Ieuenctid Heol Hir
Canolfan Ieuenctid Howardian
Canolfan Ieuenctid Llanrhymni
Pentwyn Dome
Canolfan Ieuenctid Tredelerch
Canolfan Ieuenctid Radur
Warws Glan-yr-afon
Canolfan Ieuenctid Trelai
Canolfan Tŷ Celyn
Canolfan Ieuenctid Waterhall
Canolfan Ieuenctid Yr Eglwys Newydd
CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR McEVOY

Faint o oriau yng Nghanolfan Chwarae Grangetown a gafodd eu hariannu fesul wythnos ym mis Mai 2012 a nawr?

Faint o oriau yr wythnos fydd yn cael eu hariannu ar ôl mis Ebrill 2017?

Ymateb

Ym mis Mai 2012, byddai Canolfan Chwarae Grangetown wedi bod ar agor am 20 awr yr wythnos a 30 awr yr wythnos yn ystod gwyliau'r ysgol, heblaw am yr wythnosau oedd yn cynnwys gwyliau'r banc. Dyma'r sefyllfa ar hyn o bryd. Byddai'n amhriodol i mi nodi faint o oriau a fydd yn cael eu hariannu ar ôl Ebrill 2017 oherwydd bydd y ganolfan yn trosglwyddo i Ysgol Feithrin Grangetown.

Ynghyd â gwaith y Tîm Chwarae Cymunedol, bydd cyfleoedd chwarae y dal i gael eu darparu ledled Grangetown, gan gynnwys yng Nghanolfan Chwarae Grangetown. Byddant yn cael eu hariannu i'r un lefel yn ardal Grangetown a Glan-yr-afon oherwydd bydd lleoliadau eraill yn cael eu defnyddio er mwyn darparu cynnig mwy cynhwysfawr.

ADDYSG (Y CYNGHORYDD SARAH MERRY)
CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR McEVOY

Faint o glybiau ieuenctid a chanolfannau ieuenctid y Cyngor oedd yng Nghaerdydd ar 3 Mai 2012?

Faint oedd ar 3 Tachwedd 2016?

Ymateb

Hoffwn eich cyfeirio at yr ateb a ddarparwyd i'ch ail Gwestiwn Ysgrifenedig.

AMGYLCHEDD (Y CYNGHORYDD BOB DERBYSHIRE)
CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BRIDGES

Beth yw polisi cyfredol y cyngor ynghylch clirio dail a dad-flocio draeniau sy'n llawn dail sydd wedi syrthio?

Ymateb

Fel y soniais yn f'ymateb i gwestiwn ar lafar gan eich cyd-aelod grŵp, y Cynghorydd Rea, yng nghyfarfod llawn y Cyngor fis diwethaf, mae gan y Cyngor nifer o dimau sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod adnoddau priodol yn cael e' hymrwymo i glirio'r dail oddi ar strydoedd a phalmentydd y ddinas.

Mae tair prif elfen i'r gwaith clirio dail:

Yn gyntaf, parcio llanwol, lle rydyn ni'n gofyn i breswylwyr neu fusnesau strydoedd â choed bob ochr symud eu cerbydau er mwyn gallu cyrraedd ymylon y ffyrdd. Dechreuodd yr amserlen ar 5 Medi a bydd yn parhau hyd at 13 Rhagfyr 2016.

Yn ail, yn ystod y prif gyfnod o golli dail o 10 Hydref tan 23 Rhagfyr, rydyn ni'n cyhoeddi amserlen ar gyfer yr ardaloedd lle targedir adnoddau a bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu clirio'n rheolaidd.

Ac yn drydydd, wedi prif gyfnod cwymp y dail, byddwn yn targedu'r prif fannau sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd dŵr wyneb, yn arbennig pan mae'n argoeli tywydd drwg er mwyn gostwng faint o ddail sy'n casglu o amgylch y draeniau.

Yn gyffredinol, bydd gwaredu â dail o wyneb gyli yn galluogi'r dŵr i ddraenio; fodd bynnag, os yw unrhyw ddŵr wyneb yn parhau ar ôl i'r dail gael eu clirio, mae hyn fel arfer yn dangos bod y gyli wedi'i flocio. Mae gan y Cyngor dimau draenio sy'n ymgymryd â gwaith clirio draeniau wedi'i gynllunio a gwaith ymatebol pan fydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi.

TRAFNIDIAETH, CYNLLUNIO A CHYNALIADWYEDD
(Y CYNGHORYDD RAMESH PATEL)
CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR ROBSON

Mae etholwyr wedi bod yn holi ynglŷn â'r bocs melyn arfaethedig y tu allan i fynediad Tesco ar Ty'n y Parc Road. Ers pryd y mae'r bocs wedi'i gynnwys ar restr projectau trafnidiaeth a phryd fydd y bocs yn cael ei baentio?

Ymateb

Gallaf gadarnhau y bydd cyffordd bocs melyn ar gyfer hwyluso mynediad i'r siop Tesco Express a'r orsaf betrol ar Ty'n y Parc Road ar waith yn y dyfodol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BRIDGES

A fydd y cyngor yn ystyried cyflwyno cynllun ble bydd gofyn i ddatblygwyr dalu bond pan fydd gwaith yn dechrau ar unrhyw ddatblygiad, a fydd yn cael ei ad-dalu ar ôl i'r gwaith gwblhau a dim ond os nad yw'r datblygiad wedi niweidio'r ardal gyhoeddus? Mae llawer o enghreifftiau diweddar o ddatblygwyr yn achosi niwed i'r ardal gyhoeddus, sydd wedi arwain at y trethdalwr yn gorfod talu

amdano.

Ymateb

Pan fydd gwaith yn cael ei wneud i briffyrdd presennol neu fannau agored cyhoeddus, mae’r gwasanaethau cyngor perthnasol yn gofyn bod bond yn cael ei dalu.

Mae bondiau'n ofynnol ar gyfer gwaith dan adran 278 Deddf Priffyrdd 1980 ble bod datblygiad yn cynnwys diwygiadau neu welliannau i’r briffordd fabwysiedig. Fodd bynnag, mae’r ddarpariaeth hon yn galluogi’r Cyngor i gyfeirio'n ôl at y bond i dalu am unrhyw waith os yw'r datblygwr yn torri'r contract, fel y nodwyd mewn cytundeb cyfreithiol gyda'r Cyngor.

Byddai niwed i eiddo’r Cyngor gan ddatblygwyr yn cael eu rheoli’n uniongyrchol gan swyddogion a byddai’r Cyngor yn ceisio sicrhau bod y datblygwr yn trwsio unrhyw eiddo a ddioddefodd unrhyw niwed drwy dystiolaeth o weithgareddau'r datblygwr.

Os yw niwed yn digwydd oherwydd tresbasu anawdurdodedig, mae modd adennill y niwed drwy’r Llys.